# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

GORFFENNAF/AWST 1977

RHIF 41

# SIOP Y TRIBAN I GAU ?

Tipyn o ysgytwad i bawb oedd y newyddion a gyhoeddwyd ddechrau mis Gorffennaf fod un o gyrchfannau mwyaf cydnaws Cymry Caerdydd, Siop y Triban, i gau ddiwedd mis Awst. Yn ôl perchenogion y siop, Peter a Nel Meazey, ar bolisiau Adran Lenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau y mae'r bai am hyn, yn fwyaf enwedig drwy weithgareddau siop lyfrau'r Cyngor, Oriel a sefydlwyd ychydig dros dair blynedd yn ol.

Yn fras, prif gŵyn Mr a Mrs Meazey yw bod Oriel wedi ehangu y tu hwnt i bob disgwyl; yn hytrach na chadw at faes mwy cyfyngedig llyfrau arbenigol na allai siop fasnachol fforddio eu cadw mewn stoc y mae wedi tyfu'n siop lyfrau gyffredinol sydd hefyd yn gwerthu pethau fel cardiau, recordiau, crysau T ac ati, mewn cystadleuaeth uniongyrchol â siop fel Siop y Triban. Ofnant fod yr ehangu hwn yn mynd i barhau, ac y bydd y siop (sydd ar ddau lawr ar hyn o bryd) yn llyncu trydydd llawr cyn bo hir. Gwelant hefyd fod men deithiol Oriel yn mynd i effeithio ar y rhwydwaith o gysylltiadau gwerthu y mae Siop y Triban wedi ei sefydlu mewn ardaloedd fel Canol Morgannwg. Eu cwyn fwyaf hwyrach yw'r ffaith fod arian diddiwedd gan y Cyngor i'w arllwys i mewn i Oriel fel nad oes unrhyw angen iddi wneud unrhyw ymdrech i fod yn fasnachol lwyddiannus; yn ôl Pete Meazey, mae'r siop yn cario gormod o stoc, mae ei cholledion yn fawr, ac y mae'n amcangyfrif i'r siop wario £5,000 ar hysbysebu (gan gynnwys cryn dipyn ar y teledu) yn ystod y chwe mis diwethaf.

Beth felly yw ymateb

**(Parhad ar dud. 10)**



*Y Grŵp Pop adnabyddus SHWN (gweler tud. 11).*

## Wynebau Newydd

Mewn cyfarfod agored i drafod dyfodol *Y Dinesydd* ac i ethol swyddogion newydd a chyfethol aelodau newydd i'r pwyllgor, dewisiwyd Mr Michael Jones, y cyfreithiwr o Lan-y-Llyn yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli'r *Dinesydd*. Y mae ef yn olynu Dr Meredydd Evans, Cadeirydd diwyd ac ysbrydoledig y Pwyllgor am fwy na thair blynedd. Yr oedd Mr Geraint Walters, Trysorydd *Y Dinesydd* — sydd hefyd wedi bod wrthi ers tair blynedd bellach — yn rhoi'r gorau iddi hefyd, a gobeithir cyhoeddi enw'r Trysorydd newydd yn y rhifyn nesaf. (Yn y cyfamser, mae Geraint yn gwbl barod i ddal ati i dderbyn eich cyfraniadau! Y cyfeiriad: Dorwen, 29 The Rise, Llanishen, Caerdydd.)

Golygydd newydd *Y Dinesydd* yw Medwen Roberts, sy'n enedigol o Danygrisiau, ond sydd wedi ymgartrefu yn y cylch hwn ers rhyw ddwy flynedd bellach. Y mae Medwen ar hyn o bryd yn athrawes yng Nghaerffili ac yn weithgar dros ben gyda nifer o wahanol gymdeithasau yng Nghaerdydd. Mae hi'n olynu Siân Edwards yn y swydd, a dymunwn bob hwyl iddi ar y gwaith.

Heblaw am ethol pobl newydd i'r pwyllgor, roedd y cyfarfod (a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant — diolch eto i'r eglwys honno am bob cymorth) yn gyfle i bawb ddweud ei farn ynglŷn â'r *Dinesydd* ac awgrymu syniadau newydd, a chafwyd trafodaeth fuddiol a bywiog. Trueni na fyddai mwy o bobl wedi gallu bod yn bresennol, ond braf oedd gweld nifer o wynebau newydd yn barod i ymddiddori'n weithredol yn y gwaith o gadw'r *Dinesydd* i fynd am flwyddyn arall o leiaf. O hyn ymlaen, fe fydd *Y Dinesydd* yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol fel hwn bob blwyddyn, a gobeithio y cawn weld mwy o'n darllenwyr yn y cyfarfod nesaf.

## CROESO I GAERDYDD

Dyma'r gân a gyfansoddwyd gan Emyr Lewis, ac a fydd yn cael ei chanu gan blant ysgol Bryntaf Caerdydd, ar lwyfan Eisteddfod Wrecsam, i groesawu Eisteddfod Genedlaethol 1978 i Caerdydd.

*Pan yw heulwen Gorffennaf*
*yn troi'n Awst, trwy ynni haf,*
*croeso mewn cywair iasol,*
*o fryn a dyffryn a dôl*
*i'n cartref y dref o dras*
*a braf ddoniau'r brif-ddinas.*

*I gaer hen ein tre'n eu tro,*
*y Rhufeiniwr fu yno*
*a hen ormes y Norman:*
*yma, parha, ym mhob rhan,*
*o'r seiliau i'r tyrrau teg,*
*ryw hen gur yn y garreg.*

*Rhoes malais trais y tir âr*
*greithiau du ar groth daear:*
*a chyflog cyfoethogion*
*ddeuai'n sail i'r ddinas hon;*
*merch yw o waed môr a chwm,*
*y berl a ddaeth o'r bwrlwm.*

*Eleni, daw o lannau,*
*rhai lleiaf, pellaf ein pau,*
*hen awen fwyn gwerin fad,*
*hen ruddin ein gwareiddiad,*
*yn dwyn gwawr dân i Gaerdydd;*
*ffagl llên ac awen newydd.*

*ELIYR LEWIS*

# GOLYGYDDOL

Gyda'r rhifyn Eisteddfodawl hwn, wele'r *Dinesydd* ar drothwy cyfnod newydd o dan Olygydd newydd, sef Medwen Roberts, gynt o Danygrisiau, ond wedi hen ymgartrefu yng Nghaerdydd bellach. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld *Y Dinesydd* newydd ym mis Medi — a dymuno pob hwyl i Medwen ar y gwaith.

Etholwyd Michael Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli yn lle Dr Meredydd Evans a gobeithir penodi Trysorydd newydd hefyd yn y dyfodol agos yn lle Geraint Walters, sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr dros ben i'r papur — diolch iddo am ei waith da.

Tra'n croesawu Michael yn Gadeirydd newydd, carem dalu teyrnged arbennig iawn i'w ragflaenydd yn y swydd hon. I Meréd, yn anad neb arall, y mae'r diolch am fod *Y Dinesydd* yn bod o gwbl — ei syniad ef, ei freuddwyd ef am flynyddoedd oedd ailsefydlu papur newydd Cymraeg yn y brifddinas. Er gwaethaf diffyg brwdfrydedd rhai o Gymry Caerdydd (ac aml i gawod o ddŵr oer a daflwyd am ben y cynllun!) dyfalbarhau a wnaeth nes casglu criw brwd o bobl cyffelyb eu syniadau o'i gwmpas a dechrau gosod y seiliau ar gyfer y papur ym 1972. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ym mis Ebrill 1973 a'r *Dinesydd* felly oedd y cyntaf yn y "don newydd" o bapurau bro sydd wedi eu sefydlu ledled Cymru oddi ar hynny.

Ni fynnai Mered fod mewn sefyllfa o amlygrwydd gyda'r papur — dywedodd droeon mai yn y cefndir yr oedd ef am fod, a dyna lle bu yn gwneud y gwaith caled a diddiolch o godi arian i gadw'r papur i fynd o fis i fis. Ond ar ôl ychydig fisoedd, wedi i'r Cadeirydd cyntaf, Mr Eirion Lewis orfod rhoi'r gorau iddi oherwydd pwysau gwaith, daeth Mered i'r adwy ac y mae wedi bod wrth y llyw, yn rhoi arweiniad, calondid a chefnogaeth i bawb a fu ynglŷn â'r gwaith byth er hynny. Yn ychwanegol at y gwaith hwnnw, daliodd ati gyda'i weithgareddau codi arian ac yn sicr, fe fyddai'r *Dinesydd* wedi trengi ers tro heb ei ddiwydrwydd a'i frwdfrydedd ef yn y gwaith hwnnw.

Mae'n siwr y bydd pawb o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn ymuno gyda ni felly i ddweud yn syml, "Diolch o galon, Mered."

## CALENDR MEDI

| | |
|---|---|
| 13 | Merched y Wawr CYFARFOD AGORIADOL Canolfan yr Urdd 7.30p.m. |
| 16 | Plaid Cymru NOSON GLYNDWR Tŷ Maeth 8.00p.m. |
| 18 | Eglwys Ebeneser PASIANT AR HANES YR EGLWYS. |
| 24 | Mudiad Ysgolion Meithrin CYFARFOD BLYNYDDOL Politechneg Cymru, Trefforest 10.30a.m. |
| | Gyda'r nos MIRI MEITHRIN Neuadd Bentref Pentyrch 8.30p.m. |
| 26-30 | Urdd Gobaith Cymru WYTHNOS MR URDD Canolfan yr Urdd. Siop ar agor bob nos. |
| 30 | Urdd Gobaith Cymru DISGO MR URDD Canolfan yr Urdd. |

## DIGWYDDIADAU'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| HYDREF 1 | Aelwyd yr Urdd RIFIW Theatr Bute 8.30p.m. |
| 2 | Cwmni Drama'r Aelwyd PETHAU BRAU Theatr Sherman 8.00p.m. |
| 15 | Y Mudiad Meithrin TREN LLUNDAIN. |
| TACHWEDD 19 | GŴYL WERIN YR URDD Coleg Technegol Cross Keys. |
| 25 | Cylch Meithrin Rhiwbeina NOSON GAWS A GWIN. |

Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Fedi'r 9fed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn AWST 29 fan bella, os gwelwch yn dda. D.S. Dyma'r cyfeiriad newydd y dylid danfon y deunydd iddo:

MEDWEN ROBERTS,
GOLYGYDD *Y DINESYDD*,
3 HEOL CAERDYDD,
FFYNNON DAF.

## O'R POST

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Tybed a allwn gael ychydig ofod yn eich papur i gynnig pleidlais o ddiolchgarwch?*

*Yn ystod cyfnod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Barri bu 110 o ddisgyblion Ysgol y Berwyn ynghyd ag athrawon yr ysgol yn lletya yn ardal Radur a Phentyrch. Carwn i bawb a fu'n lletya'r plant wybod fy mod i, yr athrawon, rhieni'r plant a'r plant eu hunain yn gwerthfawrogi'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atom yn fawr iawn. Gwyddom o brofiad nad gwaith didrafferth yw hyn ac rydyn yn ddigon siwr na fyddai Eisteddfod yr Urdd yn gallu digwydd o gwbl heb ymdrechion y teuluoedd yma yn lletya plant o bell yn rhad ac am ddim.*

*Ar ein rhan ni i gyd, diolch yn fawr iawn.*

*Yn gywir,*

*IWAN BRYN WILLIAMS,*
*Ysgol y Berwyn, Y Bala.*



*MICHAEL JONES,*
*Cadeirydd Newydd ein Pwyllgor Rheoli.*

## Diolch

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru.

## Fferi i Hong Kong

Ar ôl dychwelyd o heulwen y Carabî i haf gwlyb Caerdydd, mae'n debyg mai byr fydd arhosiad Tanwen James (Jarman gynt) a'i gŵr David a'u mab bychan yma. Ym mis Awst, bydd y teulu'n ymadael â Chymru am Hong Kong lle mae David yn mynd i ddysgu am ddwy flynedd. Pob hwyl iddynt yno — ac yn gyfnewid am gael hanes Caerdydd yn *Y Dinesydd* bob mis, mae Tanwen wedi addo cyfrannu ysgrif ar Jamaica i'r rhifyn nesaf — ac yna fe gawn hanes Hong Kong yn y man. Fe fyddwn i gyd yn edrych ymlaen at ddarllen hanes y teithwyr eofn hyn!

## Cyngerdd yn Rhydfelen

Cynhaliwyd cyngerdd offerynnol llwyddiannus dros ben yn Ysgol Gyfun Rhydfelen nos Fawrth, Gorffennaf 12fed pan berfformiodd cerddorfa'r ysgol ddetholiad eang o weithiau amrywiol o dan arweiniad Bethan Miles, eu Cyfarwyddwr Cerddorol. Hwyrach mai uchafbwynt y noson oedd y perfformiad cyntaf o waith newydd gan y cerddor ifanc Geraint Lewis, sef "Elegia in memoriam Grace Williams". Er bod hwn yn waith anodd i gerddorfa amhrofiadol, gwnaethant ymdrech lew iawn; y mae'r gwaith ei hun yn ernes o ddyfodol disglair i Geraint Lewis (diolch iddo gyda llaw am ei adolygiad ar dud. 15). I'r rheini ohonom sydd yn poeni am ein tuedd ni fel Cymry i or-bwysleisio cerddoriaeth leisiol a chorawl, yn aml iawn ar draul yr ochr offerynnol, calondid mawr oedd y noson raenus hon. Diolch i bawb a weithiodd mor galed i'w gwneud hi'n bosibl.

## Amser Te

Llongyfarchion i gangen Caerdydd o Ferched y Wawr am ennill y wobr gyntaf yn y Sioe Amaethyddol am arlwy o de Cymreig nodweddiadol o'u hardal.

Yn anffodus, mae yna fylchau yn ffeil ôl-rifynnau'r *Dinesydd* — tybed a all rhai o'n darllenwyr ein helpu? Y rhifynnau sydd ar goll yw rhifau 1, 4, 6 a 7: os oes yna unrywun o blith ein darllenwyr â chopïau sbâr o'r rhifynnau hyn, byddai'n dda iawn gennym glywed oddi wrthynt. Danfoner at Siân Edwards, 25 Heol Ilton, Penylan, Caerdydd. Diolch yn fawr.

Llongyfarchiadau gwresog i Gantorion Ardwyn, Caerdydd am ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i gorau cymysg yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen eleni — go dda, wir.

# Teithio Cymru

Y Cwmni Drama ar Daith

**Y drefn arferol ym myd y theatr yw perfformiadau yn y wlad cyn cyrraedd y pinacl dinesig. Ond yn groes i'r arfer hwn, bydd Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno perfformiad o "Pethau Brau" (cyfieithad Emyr Edwards o ddrama Tennessee Williams *The Glass Menagerie*) yn y brifddinas cyn mentro â'r ddrama ar daith o amgylch Cymru.**

Bydd y ddrama i'w gweld ar nos Sul, Hydref yr ail; cyn hynny, ar y nos Sadwrn bydd perfformiad arall o'r "Rifiw" a gyflwynwyd gan griw o'r Aelwyd yn ystod yr Wyl Gyhoeddi. Dyma gyfle gwych i bawb gael gwerthfawrogi rhan o'r gweithgaredd sydd yn mynd ymlaen yng Nghanolfan Heol Conwy.

Mae taith o'r fath i Wynedd, Powys, Clwyd a Dyfed yn fenter go fawr i gwmni amatur, a mawr obeithiwn y bydd Cymry Caerdydd yn dod yn llu ar benwythnos cyntaf Hydref i roi cefnogaeth ac ysbrydoliaeth i'r cwmni.

Felly, cofiwch:- Nos Sadwrn, Hydref 1af, Theatr Bute (Y Coleg Cerdd a Drama) am 8.30p.m. RIFIW Tocyn £1. Nos Sul, Hydref 2il, Theatr Sherman am 8.00p.m. PETHAU BRAU Tocyn £1.10.

O ia, mae pawb yn hoffi bargen! Bydd cyfle i chi brynu tocyn dwbl i'r ddau berfformiad am £1.50 o Ganolfan yr Urdd. Felly brysiwch a phrynwch *nawr* rhag cael eich siomi!

## TREN LLUNDAIN

PWYSIG. Fe fydd tren arbennig y Mudiad Meithrin yn rhedeg i Lundain ar ddydd Sadwrn, HYDREF 15, felly cofiwch gadw'r dyddiad hwn yn rhydd. Gwell fyth, archebwch eich tocynnau NAWR!

# Croeso'n Ôl

Mae Tegid a Gwen Jones wedi dychwelyd i Gaerdydd ar ôl treulio llawer o'u hamser yn ddiweddar yn Llundain. Mae'n braf eu cael yn ôl yma — ac yn braf hefyd i'r plant gaiff y cyfle'n awr o gael eu haddysg mewn ysgolion Cymraeg.

# I Teheran

Llongyfarchion i Bethan Wiliam ar ei phenodiad i fynd am flwyddyn i'r Dwyrain Canol i weithio gyda chwmni Cenedlaethol Ballet ac Opera Teheran. Mae Bethan, sy'n prysur gwneud enw iddi'i hun ym myd y ballet, yn ferch i Dr. a Mrs Aled Rhys Wiliam, gynt o Gaerdydd.

---

Byddai o gymorth mawr i'r Golygydd pe byddai pob CYMDEITHAS GYMRAEG, CAPEL, EGLWYS, CLWB CHWARAEON ac ati yn danfon rhestr o'u swyddogion ar gyfer tymor 1977/78 at *Y Dinesydd* ar gyfer rhifyn mis Medi. Byddai rhaglen/rhestr cyfarfodydd yn gymorth mawr hefyd, a thrwy ddanfon honno at y Golygydd, gallech sicrhau cyhoeddusrwydd i bob cyfarfod yn y Calendr misol. Diolch yn fawr.

---



*Y Prifathro a'r bws newydd.*

# Mabol-gonciau!

Cynhaliwyd Mabolgampau Blynyddol Adrannau Pentref Caerdydd a'r Cylch yng Nghanolfan yr Urdd nos Fawrth, Gorffennaf 12fed. Roedd y chwaraeon (a drefnwyd gan Cen Williams) i fod ar Gaeau Llandaf ond daeth y glaw, felly noson dan do fu hon. Daeth plant o adrannau'r Rhath, Rhiwbeina, yr Eglwys Newydd, Llandaf a Gwaelod y Garth ynghyd i fwynhau'r noson; roedd dros gant yn bresennol a mawr oedd y gweiddi a'r annog nes cyhoeddi'r marciau.

Adran Gwaelod y Garth a enillodd y Prif Dlws, sef Gonc yr Urdd a gyflwynwyd iddynt gan Cen Williams ac Alan Gwynant. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol, a diolch i bawb a gymerodd ran. Gobeithio fod pawb wrthi'n ymarfer yn galed nawr ar gyfer Mabolgampau'r flwyddyn nesaf!

# Ffair Haf Llanhari

Ar ddydd Sadwrn, Mai 24ain, cynheliwyd Ffair Haf Ysgol Gyfun Llanhari. Cyn i bawb gael cyfle i wario'u harian ar yr holl nwyddau deniadol oedd ar gael, cyflwynwyd bws Mini i'r ysgol gan Mr Eddie Rea, Cadeirydd y Gymdeithas Rhieni. Rhodd i'r ysgol yw'r bws oddi wrth y Gymdeithas, ac fe gaiff ei ddefnyddio'n helaeth. Agorwyd y Ffair gan 'Miss Cymru' ac yna aethpwyd ati o ddifri i brynu a gwerthu.

Gwnaed elw o £975 a bwriedir prynu llenni i lwyfan newydd yr ysgol gyda rhan o'r arian. Prynhawn braf a buddiol i bawb a fu yno.

# Menter Newydd

Os byddwch yng nghyffiniau Heol y Crwys yn ystod yr wythnosau nesaf, cofiwch alw i mewn i "The Playtime Shop" ym mhen ucha'r ffordd i roi tipyn o gefnogaeth i Terry O'Neill yn ei fenter newydd. Mae Terry, sy'n adnabyddus i'r rhan fwyaf o Gymry Caerdydd fel un o gynheiliaid y Blaid yn y cylch (ac sydd wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar gyda'r gwaith o gynhyrchu'r cylchgrawn newydd gwych hwnnw, *Y Saeth*) wedi mentro i faes newydd y mis hwn, sef gwerthu teganau a recordiau. Dywed fod galw mawr yn y cylch am recordiau corau Cymru ac yn raddol, gobeithio ehangu apêl Gymreig y siop yn gyffredinol, gan gynnwys stoc dda o recordiau Cymraeg yn y man. Dymunwn bob llwydd iddo ef a'i deulu yn y fenter hon.

# Salwch

Drwg iawn oedd gennym glywed am salwch Mr Idwal Jones, prifathro Ysgol Gymraeg Caerffili. Y mae yn Ysbyty Llandochau ar hyn o bryd — mawr obeithiwn y bydd wedi gwella digon i fynd adref yn fuan iawn a dymunwn iddo adferiad buan.

# TUDALEN Y DYSGWYR

## NEWYDDION

*Wedi cyfnod o fod yn segur, bydd Cymdeithas y Dysgwyr yng Nghaerdydd yn ail-ddechrau ym mis Medi ac eisoes trefnwyd rhaglen amrywiol i bobl sy wedi dysgu digon o Gymraeg i allu cynnal sgwrs yn weddol rugl.*

**TROI'N GYMRY CYMRAEG**

*Nod y Gymdeithas ydy ceisio troi y dysgwyr hyn yn Gymry Cymraeg a'u cael i ymdoddi i'r bywyd Cymraeg yn y brifddinas. Er mwyn peidio ynysu'r dysgwyr yn y Gymdeithas, rydyn ni'n gwahodd Cymry Cymraeg sydd eisiau helpu'r dysgwyr i ddod yn rhugl i ymuno â'r Gymdeithas hefyd. Am ragor o fanylion ffoniwch Mrs Nans Couch (Caerdydd 492628) neu Gwilym Roberts (Caerdydd 62254).*

**"YR AGORIAD" ETO**

*Bydd rhaglen y tymor ar gael yn fuan ym mis Medi a gobeithir dechrau'r tymor gyda noson goffi. Yn sgîl ail-godi Cymdeithas y Dysgwyr, bwriedir ail-dechrau cyhoeddi "Yr Agoriad" sef Cylchgrawn i Ddysgwyr Cymraeg y brifddinas, a bydd y rhifyn cyntaf yn ymddangos ddiwedd mis Medi. Oherwydd y gost uchel o argraffu bydd yn rhaid dechrau gyda chopiau wedi eu dyblygu ond yn nes ymlaen gobeithir argraffu'r cylchgrawn hwn fel yn y dyddiau gynt.*

**EISTEDDFOD 1978**

*Gobeithio y bydd y ddau beth yma, sef ail-gychwyn Cymdeithas y Dysgwyr ac ail-gyhoeddi "Yr Agoriad" yn dod â bywyd newydd i'r ymdrechion i ddysgu'r iaith i oedolion yn y ddinas ac y bydd hefyd yn braenaru'r tir ar gyfer ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd ym 1978. Os ydych chi eisiau helpu mewn unrhyw fodd drwy drefnu noson goffi neu ddod i'r Cyfarfodydd, rhowch wybod i'r ddau berson a enwyd ar y dechrau.*

GWILYM ROBERTS

*GEIRFA*

*segur* — inactive, idle
*amrywiol* — varied
*ymdoddi* — dissolve, merge into
*ynysu* — isolate
*yn sgil* — in the wake of, following
*dyblygu* — duplicate
*argraffu* — print
*braenaru* — to plough or prepare land for seeding

## Agor Pabell y Dysgwyr

Clive Betts, y newyddiadurwr o Gaerffili, fydd yn agor Pabell y Dysgwyr yn Eisteddfod Wrecsam (11.00 a.m. dydd Llun). Y mae Clive, sydd yn gweithio i'r *Western Mail*, wedi dysgu Cymraeg yn rhugl ac y mae ganddo syniadau diddorol iawn ar ddyfodol yr iaith a'i sefyllfa yn y Gymru sydd ohoni; mae'n siwr y bydd ganddo bethau treiddgar a gwreiddiol i'w ddweud am hyn yn ei araith agoriadol.

## Côr i'r Dysgwyr?

I chi'r dysgwyr sy'n hoffi canu yn ogystal â siarad Cymraeg, mae cynlluniau ar y gweill i ffurfio Côr Dysgwyr y gaeaf hwn. Bydd y Côr hwn yn rhoi cyfle i ddysgwyr sy'n gallu siarad tipyn o Gymraeg i gwrdd i ddysgu caneuon Cymraeg, i gael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ac wrth gwrs, i gymdeithasu a siarad Cymraeg gydag aelodau eraill y Côr. Os oes gennych chi ddiddordeb (a thipyn bach o lais, wrth gwrs!) ysgrifennwch am fanylion pellach at:

Dr. Meredydd Evans,
Adran Efrydiau Allanol,
39 Park Place, Caerdydd.

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

NEWYDD:

Platiau Llyfrau
12 o Blatiau Llyfrau,
2 yr un o 6 darlun *35c*

BATHODYNNAU ORIEL

Cyfres o 5, 1" ar draws,
llun ffotograff sepia o awduron Cymru. *10c.*
Waldo Williams D.J. Williams
Dylan Thomas
Cynan T.H. Parry-Williams

*Galwch heibio i'n gweld ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam*



## *Yr Archdderwydd yn beirniadu*

*Os ydych chi wedi eich geni yng Nghymru ac wedi byw ar hyd eich hoes yng Nghymru, mae un gystadleuaeth yn Adran Lenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol nad oes gennych chi ddim hawl i gystadlu ynddi.*

*Mae na wobr o £60 punt yn cael ei chynnig am gasgliad o atgofion am fywyd yn y Wladfa gan bobl sydd wedi byw yno ar hyd eu hoes ac sy'n dal i fyw yn Ariannin.*

*Archdderwydd Cymru, Mr. R. Bryn Williams yw'r beirniad. Fe gafodd ef ei eni yng Nghymru ond symudod i fyw ym Mhatagonia pan oedd yn blentyn ac ni ddychwelodd i Gymru tan oedd yn un ar hugain oed. Ysgrifennodd yn helaeth ar fywyd y Wladfa a'i awdl "Patagonia" a enillodd iddo Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1964.*

*Cymdeithas Ariannin ym Mhrydain sy'n cyfrannu'r wobr o £60.*

# ATGOFION HEN ATHRO

**Ar wahan i'r Prifathro, dim ond tri o staff y Cours Complementaire "Louis Barthou" y deuthum i'w hadnabod yn weddol dda. Y prif reswm am hyn oedd nad oedd yno Ystafell Athrawon o fath yn y byd. Ond yr oedd yno lun ar Gantin, ble cymerwn fy nghinio ambell dro pan fyddai gwers gennyf ar ddechrau'r p'nawn.**

Ambell dro — gan fod safon y bwyd yn affwysol. Disgwyliaswn y buasai bwyd mewn cantin ysgol yn Ffrainc yn siwr o amlygu rhai, o leiaf o nodweddion gorau *cuisine* enwog y wlad honno. Ysywaeth, anaml y cyrhaeddai ymdrechion gastronomaidd y gogyddes, Mme. Boudin, safonau truenus fy ngwlad fy hun. Ond o leiaf yr oedd y tri aelod o'r staff a fwytai yn y Cantin yn rheolaidd, Mme. Simon, M. Bourget a M. Cazin, a minnau pan fyddwn yno, yn gallu golchi blas anhyfryd risottos sych a selsig gwyw o'u cegau gyda gwydriadau o win coch hyglod yr ardal.

Pan ddywedais wrthynt unwaith y buasai athro o Gymro a yfai win yn rheolaidd gyda'i ginio yng Nghantin ei ysgol mewn perygl o golli ei swydd, edrychasant arnaf yn wyn, fel petawn i wedi honni y gellid ei ddiswyddo am disian o flaen dosbarth.

Gŵyr rhadlon, oddeutu'r deugain oed oedd y ddau athro, MM. Bourget a Cazin; Mme. Simon llawer iawn yn iau, yn brydweddol ddigon, ond llym ei thafod weithiau, a'i gŵr yn Algeria gyda'r Llynges.

Ar ddiwedd pryd, arhoswn yn y Cantin i sgwrsio gyda M. Cazin a Mme. Boudin, nes canai'r gloch, ond codai Mme. Simon a M. Bourget yn ddieithriad i "fynd am dro rownd yr iard".

## Y Gwaith

Yn y lenyddiaeth a dderbyniais o Lundain a Pharis cyn gadael Cymru, dywedwyd wrthyf i a phob darpar-*assistant* arall, mai ein swydd yn ysgolion Ffrainc fyddai cynnal "dosbarthiadau llafar" gyda grwpiau o "ddim mwy na dwsin" o ddisgyblion. Nid oedd yr un o'm dosbarthiadau yn y Cours Complementair "Louis Barthou" yn llai na deg ar hugain, a dywedais wrth y Prifathro ar ôl rhai wythnosau fy mod i'n ei chael hi'n bur anodd i gyflawni fy swydd fel y'i disgrifiwyd gan yr awdurdodau, o dan y fath amodau.

Yr oed yn llawn cydymdeimlad. Cododd ei ysgwyddau, crychodd ei dalcen a lledodd ei ddwylo yn y dull clasurol Ffrengig, beiodd y Rhyfel â'r Almaenwyr am wneud cymaint o ddifrod i gyfundrefn addysg ei wlad, a dywedodd wrthyf am ganolbwyntio ar y disgyblion gorau, gan adael y lleill i fynd ymlaen gyda rhyw waith arall.

Er mai sefydliadau'n cyfateb i Ysgolion Uwchradd Modern oedd y *Cours Complementaires* — cawsant deitl crandiach ers hynny — yr oedd ym mhob dosbarth yn "Louis Barthou" ddyrnaid o hogiau a chanddynt awydd eirias i ddysgu'r iaith fain, a meistrolaeth ddigon cymeradwy arni eisioes. Herwyr yr ysgol — *les voyous* — oedd y rhain a diddordeb masnachol a throseddol, nid academaidd, oedd ganddynt yn iaith Miltwn a Shakespeare. Ac iaith Jack Palance a Kirk Douglas oedd hi iddynt hwy.

Yn ystod y misoedd heulog, fe heidia ymwelwyr o Loegr a'r Unol Daleithiau i Bordeaux ac 'roedd y bechgyn yn eiddgar i ddysgu Saesneg er mwyn gallu ymelwa ar eu diniweidrwydd a'u hanwybodaeth. O gofio am ryw lanc mewn het gowboi fawr ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol, flynyddau'n ôl, yn prynu copi'r un o'r Cyfansoddiadau i'w deulu di-Gymraeg o chwech, ac yn estyn dyrnaid o bapurau punt i'r gwerthwr o Gymro deng oed gyda'r geiriau "Just take what you want, kid, I don't understand your money," hawdd deall sêl fy nisgyblion.

## Y Claf

Nid oedd diffyg cyfathrach â'm cyd-athrawon yn blino lawer arnaf gan fod Prifysgol ym Mordeaux, ac nid anodd dod i adnabod nifer dda o fyfyrwyr, yn Ffrancwyr a thramorwyr, ac *assistants* o lu o wledydd.

Ymhlith y rhain yr oedd Americanwr o dras Gwyddelig o'r enw Jack McCloskey. Paentiai a barddonai, a chyffesai ambell waith nad oedd wedi lwyr ddod dros pangfeydd a dirdyniadau gadael y ffydd Gatholig yn y dull Joyceaidd. Fel llawer o Americanwyr eraill o gyffelyb anian, yr oedd fy nghyfaill wedi hir dybio, cyn croesi'r Iwerydd, mai Ffrainc oedd ei gartref ysbrydol, ac wedi darganfod ei gamgymeriad yn fuan iawn ar ôl glanio yno.

"Have you been sick yet?" meddai wrthyf ryw noswaith pan eisteddem mewn café ger y *Faculté*.

"I've only had three cognacs," atebais.

"In English English — have you been ill yet?"

"I had a touch of flu just before Christmas......"

"Look — one of the women who teaches with me said to me the other day 'Have you been sick yet?', and I said, 'No, I've been fine', and she said 'Don't you know you got a right to three weeks sick leave with pay? Wise up, buddy-bud!"

Treuliodd yr wythnos ganlynol ym Mharis gyda'i gariad, a dychwelyd i Bordeaux wedi ei iachau gorff ac ysbryd.

Ond byrhoedlog fu'r adferiad. Datgelodd ei lawenydd i ryw Americanwr arall a'i galwodd yn *"adolescent"* am roi'r fath bwys ar y cyfryw brofiadau, ac aeth yn ôl i'r pot.

## Ar ddyletswydd

Ysgafn oedd gwaith *assistant*, mewn gwirionedd, ac fel dynesai arholiadau'r Haf, ai'n ysgafnach fyth, nes i'r Prifathro ddweud wrthyf ddechrau mis Mehefin nad oedd yn gweld fawr o bwynt cynnal fy nosbarthiadau i'r bechgyn hynaf, gan fod cyn lleied ohonynt yn mynychu'r ysgol y dyddiau hynny. O ganlyniad, yn ystod f'wythnosau olaf yn "Louis Barthou" ni welais nemor ddim ar yr athrawon eraill. Felly rywbryd tua chanol y mis, penderfynais droi i mewn i'r Cantin am damaid — dim mwy — a sgwrs.

Dim ond M. Cazin oedd wrth y bwrdd, ac wedi inni orffen bwyta, ac i'r bechgyn ei heglu hi am yr heulwen, gofynnais iddo ble'r oedd Mme. Simon a M. Bourget.

"Mme. Simon a M. Bourget?" meddai a syndod yn ei lais, "Mae nhw wedi 'madael — wyddech chi ddim?"

"Wedi 'madael! Pam?"

"Chlywsoch chi mo'r hanes?"

Siglais fy mhen.

"Mme. Boudin," meddai'n awgrymog, "tydi M'sieu Mils ddim wedi clywed am Mme. Simon a M. Bourget!"

Rhoddodd y gogyddes chwarddiad bach gyddfol, anodd ei ddehongli.

"Naddo wir? O...... ha-ha-ha ......Heb glywed am Mme. Simon a M. Bourget! Pwy fase'n meddwl!"

"Beth sydd wedi digwydd, felly?"

Dwyshaodd wyneb Monsieur Cazin.

"Wel, wyddoch chi, erbyn meddwl, mae'n debyg y base hi braidd yn amhroffesiynol imi sôn wrthych chi am y peth...... Beth ydych chi'n ddeud, Mme. Boudin?"

"Beryg iawn."

"A mae'r mater o *sub judice* f'el petae."

"Rydych chi'n llygaid eich lle yn fan'na, Monsieur Cazin."

"Ar y llaw arall, fydd M'sieu Mils ddim efo hi'n hir iawn eto, wedyn wela'i ddim y gallai unrhyw ddrwg mawr ddeillio o roi'r hanes iddo fo......"

A'r hanes oedd fod Mme. Simon, rai wythnosau ynghynt, wedi mynd at Monsieur l'Inspecteur — "Cyfarwyddwr Addysg" Bordeaux — i gwyno oherwydd yr annisgyblaeth gyffredinol a geid yn "Louis Barthou" ac amharodrwydd y Prifathro i roi cosbau teilwng i'r bechgyn anhydrin a anfonai hi ato.

Daeth yr Arolygydd ei hun i'r ysgol, i holi'r Prifathro a rhai o'r bechgyn hŷn. Yn ysgod cyfweliad gydag un o'r rheini, trosglwyddwyd i'w feddaint nodlyfr o eiddo Mme. Simon. Math ar ddyddiadur ydoedd, ac ynddo adroddiadau manwl iawn o'i "dyletswyddau amser chwarae" hi a'i chyd-athro.

Ataliwyd Mme. Simon rhag gweithio, symudwyd M. Bourget i ysgol arall, a byddai'r Arolygydd yn dedfrydu'n derfynol ar eu tynged fel athrawon ddiwedd y tymor.

"Mynd am dro rownd yr iard," chwyrnodd Mme. Boudin yn ddirmygus.

"Cymru fach i mi......" meddwn wrthyf f'hun.

*(I barhau)*

GARETH MILES

# Dyma pwy yw'r rhain!

Fe gofiwch i ni argraffu'r llun hwn o ddisgyblion cyntaf Ysgol Gymraeg Bryntaf (1950) yn rhifyn mis Tachwedd diwethaf a gofyn os gallai rhywun enwi'r plant yn y dosbarth. Cafwyd ateb gan un o'r disgyblion yn y llun, a dyma ni'n argraffu'r enwau bron yn gyflawn yn y rhifyn hwn.

Diolch eto i Mr Arfon Price am roi benthyg y llun i ni (ac ymddiheuriadau fil am ei gadw cyhyd — mae diffyg lle wedi golygu ein bod wedi gorfod gohirio ei ddefnyddio ers sawl rhifyn bellach). A diolch i Rhodri Jones am ymateb i'r cais am wybodaeth Meddai Rhodri,

"Fel ateb i'r cais am enwau i ddarlun Arfon Price mi geisiaf lenwi rhai o'r bylchau. Rhaid imi gyfaddef nad wyf yn siwr o bawb felly mae ambell i farc cwestiwn yn lle enw neu gydag enw."



*Yn y rhes gefn o'r chwith i'r dde:*

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Elgar Evans* | *Sian Hopkins* | *Ronalyn ?* | *Sian Morgan* | *Rhys Williams* | *Mair Eluned Evans* | *Eryl Hopkins* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Angharad Rhys* | *Sian Pierce* | *Teleri Jarman* | *?* | *Rhuddian Davies* |

*Rhes Ganol:*

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Alwyn Evans* | *Derek Jones* | *Iolo Walters* | *Ethni Daniel* | *Elizabeth Williams* | *Alun Payne* | *Ceri Evans* | *Arfon Price* | *?* | *Iwan Humphries* |

*Y Rhes Flaen:*

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Eluned Rees* | *Iwan Guy* | *Mair Wyn Evans* | *Lona Daniel* | *Beti Wyn Jones* | *Joy Llywellyn* | *? Glyndwr Owen* | *Gwyn Rees* | *Ann George* |

| | | |
|---|---|---|
| *Rhodri Jones* | *Olwen Pugh* | *Ceri Payne* |

"Mae'n siwr fod yna wallau ond mae hi'n 26 mlynedd ers i mi eistedd ar y res flaen! Diddorol fyddai gwybod beth a ddigwyddodd i'r dosbarth cynta."

RHODRI JONES

# Yn Eisiau: CANTORION!

*"Arweiniodd Alun Guy gydag ynni di-flino, ac os edrychwn ar y cyngerdd hwn fel arwydd o'r hyn sydd i ddod, mae pethau'n edrych yn dda ar gyfer yr Eisteddfod ei hun."*

**Dyna frawddeg olaf adolygiad gohebydd cerddorol y *Western Mail* ar Gyngerdd Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Gerddi Sophia nos Sadwrn, 2 Gorffennaf 1977. Alun Guy oedd yn arwain Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Simffoni Gymreig y BBC, a chafwyd derbyniad gwresog gan y gynulleidfa.**

Ond ar ôl dysgu ac ymarfer yn gyson am chwe mis i gyflwyno "Salm 150" gan William Mathias, "Tri Darlun" gan Arwel Hughes, a'r "Offeren yn C" gan Beethoven, fydd dim gorffwys hir i Alun Guy a'r Côr. Ar y nos Sul cyntaf ym Mis Medi fe fyddan nhw yn ôl yng Nghapel y Tabernacl, yr Hayes, Caerdydd, yn ail ddechrau ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod. Pan fyddan nhw'n canu ym mysg pethau eraill "Gwledd Belshazzar" gan Walton, a "Four Sacred Pieces" gan Verdi.

Ond cyn ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd angen cant a hanner o gantorion ychwanegol ar Gôr yr Eisteddfod, (50 soprano, 50 contralto, 30 tenor a 20 o faswyr). Ni threfnir praw wrandawiad, ond dylai unrhyw un sydd am ymuno lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon at Ysgrifennydd y Côr, Mr R.E. Lindsay, 28 Bryngwyn Road, Caerdydd CF2 6PQ erbyn 20 Awst 1977, a throi mewn i'r ymarfer cyntaf nos Sul, 4 Medi 1977, am 7.45p.m. oni chlywir i'r gwrthwyneb. Does dim angen i aelodau presennol y côr lenwi'r ffurflen wrth gwrs.

Gofynnir i'r cantorion fynychu cymaint ag sy'n bosibl o'r ymarferion sy'n cael eu cynnal bob nos Sul a nos Fercher.

# CYLCH RHIWBEINA'N DATHLU

Mewn cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar ddechrau Gorffennaf fe anrhegwyd Bob Roberts, Gelli Deg, Rhiwbeina fel arwydd o ddiolch iddo am bedair blynedd o wasanaeth fel Trysorydd y Cylch Meithrin.

Etholwyd y canlynol yn Swyddogion y Gymdeithas Rieni am 77/78: Cadeirydd, Iolo Walters; Ysgrifennydd, Gwilym Roberts; Trysorydd newydd, Elwyn Owen. Yn ystod Gorffennaf hefyd cynhaliwyd pymthegfed Ffair Haf Flynyddol y Cylch ac er gwaethaf y ffaith fod cant a mil o bethau eraill ymlaen yr un diwrnod fe ddaeth tyrfa o bobl ynghyd i gefnogi ymdrechion y Pwyllgor a gwnaethpwyd elw o £150 tuag at gronfa'r ysgol.

Eleni am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol fe gynigiwyd addysg feithrin rhan amser ac yr oedd y cylch ar agor bob bore'r wythnos am dair awr y sesiwn dan arweiniad yr athrawes, Mrs Mary Price. Mawr yw dyled y Cylch iddi am ei holl waith caled gyda'r plant yn ystod y flwyddyn.

Eleni hefyd bydd cylch Rhiwbeina yn dod i oed gan mai yn Hydref 1959 yr agorwyd y cylch gyntaf ac fel arwydd o ddiolch am waith y Cylch dros y blynyddoedd, mae nifer o gyn-famau'r cylch dan arweiniad Mrs Mair Owen, Heol y Bryn, Rhiwbeina yn bwriadu trefnu Noson Gaws a Gwin arbennig yn Nhŷ Maeth ar nos Wener y 25 o Dachwedd. Felly, cadwch y dyddiad hynny'n rhydd os gwelwch yn dda.

GWILYM ROBERTS

## FFURFLEN YMUNO A CHÔR YR EISTEDDFOD

Enw: . . . . . . . . . . . . . . . . . . Dyddiad: . . . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . . . . . . . . . . . Llais: . . . . . . . . . .

Rhif ffôn: . . . . . . . . . . . . . . .

Danfoner y ffurflen at Mr R.E. Lindsay, 28 Bryngwyn Road, Caerdydd CF2 6PQ.

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes Eisteddfod Wrecsam a'r Cylch i Gymru benbaladr —

O ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 10.15a.m. bob dydd, dwy awr o'r Ŵyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

**Y PRIF SEREMONÏAU** — dydd Mawrth y Coroni, dydd Iau Y Cadeirio, dydd Gwener Croesawu'r Cymry Alltud — oll ar HTV Cymru.

**'PENAWDAU'R NEWYDDION'** am 1.20p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes Y Brifwyl.

**'Y DYDD' a 'REPORT WALES'** 'Y Dydd' o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6p.m. 'Report Wales' am 6.18p.m.

**RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD** bob nos am 6.30p.m. o nos Fawrth hyd nos Wener, ac ar nos Sadwrn am 5.55p.m.

**GWASANAETH CREFYDDOL.** Bore Sul, Gorffennaf 31 o Bafiliwn Yr Eisteddfod am 10a.m. Gwelir y gwasanaeth hwn ar HTV Cymru a rhwydwaith Teledu Annibynnol drwy wledydd Prydain.

**'BYWYD'** — rhaglen arbennig gan Gwyn Erfyl ar y diweddar E. Tegla Davies (Gorffennaf 27, am 10.30p.m.)

**'YR WYTHNOS'.** Rhifyn arbennig o'r 'Wythnos' nos Lun yr Ŵyl am 8.30p.m. yng nghwmni Gwilym Owen.

**RHAGLEN DDOGFEN ARBENNIG** yn Saesneg am yr Eisteddfod Genedlaethol ar HTV Cymru am 7p.m., Gorffennaf 26, 1977, ac ar Deledu Annibynnol trwy wledydd Prydain yr un noson am 11p.m. Sylwebaeth gan James Cameron.

**AR Y MAES** — Gwasanaeth Cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell Y Plant, Taflen y Dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni — cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

Ymunwch â ni

HTV CYMRU WALES

**O Faes Yr Eisteddfod ac o'r Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd**

# TRAIS Y BARNWR

**Diau i hanes Carol Maggs, y ferch ifanc o dras Gymreig, roi ysgytwad i lawer un ohonoch fel y gwnaeth i minnau. Fe gofiwch i'r barnwr ryddhau y milwr Tim Holdsworth gan gredu (ar gam) y byddai hyn yn achub ei yrfa "ddisglair" yn y fyddin. A hyn er ei fod, yn ddiymwad, wedi trio treisio'r ferch hon, ac wedi ei hanafu'n ddifrifol.**

Dengys yr achos hwn fod yna ragfarnau od iawn yn lliwio agwedd y gyfraith at y trosedd o drais. Anodd dychmygu dyfarniad tebyg mewn unrhyw achos arall o ymosod.

Gwraidd y broblem yw hyn. Mewn achos o drais, y ferch sydd yn sefyll ei phrawf yn hytrach na'r treisiwr. Ei chymeriad hi sydd yn y fantol ac nid ei weithred ef. Rhaid iddi brofi fod iddi gymeriad hollol ddilychwin i gario'r dydd, a rhoi taw ar ragfarnau cymdeithas sydd yn taeru iddi hi gydfynd â'r dyn o'i bodd a phwdu wedyn a throi yn ei erbyn. Yn wir, y mae tuedd i benderfynu ar hyd y ddedfryd yn ôl cymeriad y ferch yn lle yn ôl natur y drosedd.

Daw effaith y rhagfarnau hyn i'r golwg cyn i achos gyrraedd llys barn. Barn y gwirfoddolwyr sydd yn rhedeg y "Rape Crisis Centre" yn Llundain yw fod canran sylweddol o ferched yn penderfynu peidio â dwyn achos gerbron oherwydd y driniaeth a gânt gan yr heddlu a'r ffordd y drwgdybir eu geirwiredd.

Barnwyd y llynedd nad oedd trais wedi digwydd os oedd gan y dyn le i gredu fod y ferch yn cytuno. Ond cyfyd problemau enfawr o hyn. Ai "cytuno" yw cytuno o dan fygythiad neu ofn niwed corfforol pellach? Ac i gymhlethu pethau eto, pan anafir merch ar ôl iddi wrthsefyll y treisiwr, dywedir y byddai ildio ynghynt wedi ei chadw'n saff.

Bu un newid mawr yn y deddfau treisio yn ddiweddar, sef na ellir datgelu enw'r ferch na'r dyn yn ystod yr achos. Ymgais yw hyn ar ran Jack Ashley AS i arbed y ferch rhag y cyhoeddusrwydd ffiaidd a ddeuai i'w rhan o'r blaen. Ac y mae ef ar hyn o bryd yn awgrymu y dylid rhoi dedfryd swyddogol o bum mlynedd o leiaf ar drais, er mwyn osgoi yr amrywio mawr sydd mewn dyfarniadau yn awr.

Ond yr angen mwyaf yma yw newid yn agwedd cymdeithas i dderbyn na ellir esgusodi trais drwy apelio at y myth traddodiadol o ddyn diniwed dan ddylanwad ei nwydau yn cael ei ddenu gan y ferch bechadurus. Rhaid cydnabod mai trosedd brwnt o ymosod ydyw, a delio ag ef yn ddiragrith.

GWEN AWBERY


## Dawn y Cyfarwydd

Cystadleuaeth newydd a diddorol yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd fydd "dweud stori", sy'n ymgais i ail-feithrin crefft draddodiadol y cyfarwydd. Mae'r gystadleuaeth yn gyfyngedig i rai dros 25 oed ac fe ga'n nhw ddweud eu stori — neu eu storiau os mynnan nhw — am chwe munud yn unig. Mae hon yn gystadleuaeth boblogaidd yng ngŵyl genedlaethol Iwerddon, yr Oireachtas, and fe fydd yn arbraw newydd yn yr Eisteddfod. Mae na wobr o £12, ac yn ddiddorol iawn rhoddwyr y wobr yw Islwyn ac Ann Jones. Mae Mr Islwyn Jones yn ddarlithydd yn adran Gymraeg Coleg Polytechneg Morgannwg yn y Barri — ac mae'n cael ei gydnabod fel un o'r adroddwyr storiau mwys difyr yng Nghymru!

## Celf arbrofol

Un nodwedd newydd a diddorol yn Eisteddfod Wrecsam fydd yr arddangosfa o "Gelfyddyd Berfformiadol" a fydd yn digwydd ar y maes bob dydd. Mewn cyfres o arddangosfeydd, perfformiadau a thrafodaethau, bydd nifer o artistiaid rhyngwladol yn olrhain y cysylltiadau rhwng ein gorffennol Celtaidd a'i futhiau cyn-hanesyddol â'n Cymru ddiwydiannol ni heddiw, a dylanwad diwylliant Celtaidd ar ddatblygiad diwylliant gorllewin Ewrop.

## NEWYDDION CWM RHYMNI



### H.P. O GAERFFILI?

Cychwynwn y tro hwn gyda nifer o achosion llongyfarch. I'r Cynghorydd H.P. Richards, Caerffili, yn gyntaf ar ei anrhydeddu gan yr Eisteddfod Genedlaethol a'i gynnwys yn y rhestr i'w Urddo yn Wrecsam eleni. Cyflwynir yr anrhydedd mewn cydnabyddiaeth o'i gyfraniad di-flino ar hyd y blynyddoedd i lwyddiant yr achos Eisteddfodol. Mae Cwm Rhymni ar ei hyd yn ymfalchio yn y dewis hwn, yn arbennig gan ei fod yn dod yn fuan wedi i'r Cwm gasglu tair mil o bunnoedd i Gronfa Mil o Filoedd yr Eisteddfod trwy waith dygn pwyllgor a gadeiriwyd gan Mr Richards ei hun. Mae'n ymddangos nad yw eto wedi penderfynu ar ei enw Orseddol. Cawn weld yn Wrecsam!

### HANES SIAN

Llongyfarchiadau, wedyn, i Sian Rhiannon Williams, Rhymni, ar iddi ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Hanes yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth. Yr hyn sydd fwyaf nodedig ynghylch y gamp hon yw mai dyma'r tro cyntaf i fyfyriwr ddilyn cwrs Hanes yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Peth digon cyffredin, erbyn hyn, yw dilyn rhan neu ranau o gwrs drwy'r Gymraeg, ond mae llwyddiant Sian yn unigryw ac yn destun clod i hithau ac i'w chefndir addysgol drwy Ysgol Gymraeg Rhymni ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae Sian yn bwriadu aros yn Aberystwyth i ddilyn cwrs ymchwil. Pob hwyl iddi.

### AIL-DREFNU TREFNWYR

Llongyfarchiadau, yn olaf, i Alwyn Jones, athro yn Ysgol Gyfun Cwmcarn, ar ei apwyntiad fel Trefnydd newydd yr Urdd gyda gofalaeth Gwent a De Morgannwg. Mae hon yn swydd hollol newydd ac yn gyfle i ŵr ifanc fel Alwyn elwa ar lwyddiant Eisteddfod y Barri. Yn frodor o'r Bala, cafodd Alwyn ei addysg golegol yn Aberystwyth a bu'n weithgar iawn eisoes gyda'r Urdd yn ei ysgol yng Nghwmcarn ac fel aelod o Bwyllgor Sir Gwent. Dymunwn y gorau iddo yn ei swydd newydd a fydd yn cychwyn ym mis Medi.

### GŴYL WERIN GWENT

Un o dasgau cyntaf Alwyn fydd sicrhau'r trefniadau terfynol gogyfer â Gwyl Werin yr Urdd a gynhelir yng Ngholeg Technegol Crosskeys ar Ddydd Sadwrn, Tachwedd 19. Bydd hwn yn atyniad a fydd yn siwr o ddenu pobl o gylch eang ac mae'r trefnwyr lleol yn fyddiog y bydd yn llwyddo i ddod â'r Urdd i sylw pobl Gwent. Mae'r Pwyllgor Gwaith lleol wedi ymrwymo i gasglu £500 ymlaen llaw i ddiogelu'r ochr ariannol ac yn apelio am gyfraniadau oddi wrth unigolion, clybiau, cymdeithasau, cwmniau busnes a masnach a phawb sy'n poeni am blant a ieuenctid ac yn awyddus i gefnogi gwaith cenhadol yr Urdd yn y sir hon. Gellir anfon cyfraniadau, wedi'u talu i 'Gŵyl Werin Gwent', i'r Trysorydd, Mr W.G. Williams, Banc Lloyds, Coed-duon, Gwent.

### CRI O GAERDYDD

Chwi bobl cymoedd y De, byddwch ar eich gwyliadwriaeth! Mae swyddogion Eisteddfod Caerdydd yn awyddus i'ch perswadio i gyfrannu i goffrau'r Ŵyl honno. Buodd Cwm Rhymni yn ddigon ffôl i wahodd y Mri. Trefor Phillips a W.J. Jones i Gaerffili i annerch cyfarfod ar y costau arswydus y mae tlodion Caerdydd yn ceisio sicrhau. Pwy, ar ôl clywed y fath areithio, a fyddai'n gallu gwrthod cais ymbilgar y bonheddwyr hyn am gardod! Cymerwyd trugaredd ar y ddau ac addawyd y byddai'r Cwm yn gwneud ei orau i sicrhau cyfanswm o bum mil o bunnoedd. Ffurfiwyd pwyllgor yn y fan a'r lle dan Gadeiryddiaeth Dafydd Islwyn, Bargoed, ac Ysgrifenyddiaeth Gareth Roberts, Caerffili, i geisio gwireddu'r addewid.

### LLONGYFARCHION

Dymuniadau gorau i Del a Ieuan Williams, Caerffili, a chroeso cynnes iawn i Steffan Rhys a aned ganol mis Gorffennaf. Cofion arbennig oddi wrth y Gol. a'i chwaer fach ym Mangor!

# Dros y Mynydd Gwyrdd i Fethesda (U.D.A.)

**Roedd hi'n hyfryd iawn cael y cyfle i gyfarwyddo cwrs Cymraeg yn Unol Daleithau America, yn enwedig mewn lle mor ogoneddus â Poultney yn Nhalaith Vermont. Bethesda'r America yw Poultney a rhan helaeth o'r boblogaeth o hyd yn falch iawn eu bod yn Gymry, ac yn ymfalchio yn eu cysylltiadau â Bethesda, Arfon.**

Mae brwdfrydedd dysgwyr Cymraeg yn donic i ysbryd isel ac yn wir, roedd yna ddigonedd o ewyllys da ac awydd am ddysgu ymhlith dysgwyr Vermont ac America gyfan. Roedd tua hanner cant o bobl ar y cwrs o bob rhan o'r cyfandir, yn amrywio mewn oedran o Sarah Cowie oedd yn ddeng mlwydd oed i Esther Elias oedd yn wythdeg pedwar. Roedd rhai ohonynt yn gallu siarad llawer o Gymraeg cyn dod ar y cwrs, ond roeddent am dreulio wythnos yn gloywi tipyn ar eu hiaith. Roedd ganddynt amrywiol resymau dros geisio dysgu Cymraeg: llawer yn dweud eu bod am fod yn Gymry cyflawn; rhai yn dysgu er mwyn gallu mwynhau'r Gymanfa Ganu Genedlaethol yn fwy; dywedodd un ei bod yn dysgu am fod sain mor fendigedig i'r iaith. Roedd rhai o'r bobl ifanc — ac roedd llawer o'r rheini — am ddychwelyd i Gymru rywbryd.

Bum yn ffodus iawn i gael cymorth dau sydd â chysylltiadau agos iawn a Chaerdydd i'm helpu fel tiwtoriaid ar y cwrs, sef Ann James a fu'n athrawes ym Mryntaf ar un adeg ond sydd newydd orffen blwyddyn hapus iawn yn Washington, a Maldwyn Pate, brodor o'r Barri sydd erbyn hyn wedi treulio blynyddoedd yn yr America. Bum yn aros gyda Maldwyn yn Efrog Newydd a diddorol iawn yw gweld ei fod yn dilyn gyrfa lwyddiannus iawn ym myd y ddawns yno. Bydd llawer ohonoch siwr o fod yn cofio Maldwyn yn canu gyda'r grŵp llwyddiannus hwnnw "Y Blew" rai blynyddoedd yn ôl.

Ar ddiwedd y cwrs cawsom Noson Lawen hyfryd yn y coleg gyda phobl yn teithio o bell i gymryd rhan ac i wrando. Doedd neb wedi teithio ymhellach wrth gwrs na Phyllis Kinney. Diolch iddi hi am gyfraniad arbennig iawn. Fe ddaeth Phyllis i fyny ar y nos Wener a cherdded i mewn i westy ym Mhoultney a chlywed tua thrigain o bobl yn cael hwyl eu bywyd wrth ganu yr hen ffefrynau Cymraeg! I orffen y cwrs, cawsom Gymanfa Ganu fore Sul, a phawb wedyn yn ffarwelio â'i gilydd ac yn addo mynd ati o ddifri i ddysgu'r iaith.


Mae rhai ohonynt eisoes wedi ffurfio'n gymdeithasau bychain i gwrdd yn ystod y gaeaf i ddysgu Cymraeg. Fe brynodd aelodau'r cwrs ugeiniau o lyfrau Cymraeg a chyrsiau hunan-hyfforddiant, a braf yw gweld fod yna archebion am ddefnyddiau yn dechrau cyrraedd yr Uned Iaith.

Dyna braf oedd cyfarfod yn America â llawer o Gymry Cymraeg glân gloyw a oedd wedi gadael Cymru yn blant bach — rhai ohonynt heb fyw erioed yng Nghymru! Pobl fel Gwilym Hughes o Boultney a ymadawodd â Chymru yn dair oed ond a siaradai fel "Arfonwr" o hyd. Ernie James, Tom Jeffries, Dafydd Roberts a'r Athro Fuchs — a oedd heb ddim cysylltiad o gwbl â Chymru — a llawer o rai eraill; hyfryd yw gallu dweud mai ychydig o "I used to speak Welsh years ago but..." a glywais i, a dwud y gwir.

Rhaid son am un person arall cyn gorffen, sef Madam Amy Evans. Mae hi yn ei nawdegau erbyn hyn ond yn siarad Cymraeg o hyd. Merch o Don-yr-Efail yn wreiddiol, a dyfodd i fyny i fod yn gantores opera fyd-enwog yw Madam Amy, ond yma'r faith fwyaf diddorol, greda'i: hi sydd yn dal y record o hyd am y soprano ieuengaf i ennill ar yr unawd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Fe enillodd hi ar yr unawd soprano yn Eisteddfod Caerdydd ym 1899 a hithau ond yn 14eg mlwydd oed. Roedd 72 o unawdwyr yn ei herbyn meddai hi, ac roedd ei chof o'r diwrnod hanesyddol hwnnw yn fyw iawn o hyd.

Mawr oedd y brwdfrydedd dros ddyfodol yr iaith a Chymru yn yr America, a gobeithio rwyf fi y gwelir rhai o'r bobl ifanc yma'n dychwelyd i'r hen wlad cyn bo hir iawn, i gryfhau'r rhengoedd yma.

JOHN ALBERT EVANS



*MALDWYN PATE yn cael hwyl ar ddysgu'r iaith i ddosbarth o Americanwyr brwd yng Ngholeg y Mynydd Gwyrdd.*

UCAC

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU
*11 Heol Gordon, Caerdydd,*
*Ffôn : 494692*

yw'r unig Undeb
sydd a'i bencadlys yng Nghymru
sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru
sy'n *unfryd, unfarn* o blaid addysg Gymraeg
sy'n credu fod Cymru'n genedl
sy'n rhoi buddiannau plant ac athrawon Cymru'n *gyntaf*

**Sut yn y byd gall athrawon sy'n Gymry gwlatgar berthyn i unrhyw Undeb arall?**

# Croeso i Gaerdydd

Hoffai'r *Dinesydd* estyn croeso cynnes iawn i Meurwyn a Carys Williams a'r plant, Non a Sara a symudodd i Gaerdydd yr wythnos diwethaf o Benygroes. Y mae Meurwyn yn Gynhyrchydd Rhaglenni Crefyddol ar Radio Cymru, ac fe fydd y teulu'n ymgartrefu yn yr Eglwys Newydd. Rifyn neu ddau yn ôl, roeddem yn gresynu'r ffaith ein bod ni'n colli Nan Jones o Gaerdydd, gan weld y byddai bwlch mawr yn y byd cerdd dant yma ar ei hol. Ond nawr, ar ôl colli Nan, dyma ni'n cael Carys yn ei lle; gwyddom y bydd ganddi hi gyfraniad mawr i'w wneud yn y maes hwn yn y brifddinas. Croeso mawr i'r teulu felly — a gobeithio na fyddant yn hir cyn teimlo'n gwbl gartrefol yma yn ein plith.

# Siop y Triban i Gau?

(Parhad o dud. 1)

Cyngor y Celfyddydau i'r cyhuddiadau hyn? Yn gyntaf ar ôl dweud fod "arddangos a gwerthu llyfrau Cymraeg a Chymreig" wedi bod yn fwriad gan Oriel o'r cychwyn cyntaf, bwriad a wnaethpwyd yn hysbys ar y pryd, mynnai Meic Stephens, Cyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau nad oes yna'r un bwriad i ehangu Oriel ymhellach. Am y fen lyfrau — mynd i werthu llyfrau yn uniongyrchol i unigolion mewn ardaloedd na wasanaethir gan siop lyfrau ar hyn o bryd yw swyddogaeth honno, nid gweithredu fel math o "Book Agency".

Teimla Meic Stephens hefyd ei bod hi'n anheg son am golledion Oriel fel petai hi'n ddim ond siop lyfrau: y mae Oriel hefyd yn adran ymchwil i'r Adran Lenyddiaeth, yn gwneud gwaith ymchwil gwerthfawr ar y fasnach lyfrau, yn gweinyddu cymhorthdal ac yn hyrwyddo cynlluniau sydd o fudd cyffredinol i'r fasnach lyfrau yng Nghymru. Y mae'n rhaid talu staff am wneud y gwaith hwn. Am yr hysbysebu, wel, bil hysbysebu 1975/76 oedd £2,300 ac roedd hynny'n cynnwys £1,500 o hysbysebu teledu.

Hwyrach mai'r un digwyddiad a wnaeth fwyaf i ddod â'r gwrthdaro hwn i'r amlwg oedd busnes cytundeb llyfrau Cymraeg De Morgannwg, a'r ffaith fod Oriel wedi mentro i faes cytundebau ysgolion, maes sy'n hollbwysig i siopau bach fel Triban os ydynt i gadw eu drysau ar agor. Yn y fan hon, y mae'r Cyngor yn fodlon cyfaddef ei fod wedi pechu: rhoddwyd ymrwymiad i Pete Meazey fis Rhagfyr diwethaf na fyddai Oriel yn edrych am ffyrdd i fentro i mewn i'r maes cyflenwi llyfrau i ysgolion. Mae'n wir na wnaeth Oriel gais am y cytundeb hwn — De Morgannwg a ffoniodd y siop a gofyn os gallent wneud y cytundeb ar yr un telerau a'r cyflenwyr blaenorol — ond pam cytuno i wneud o gwbl os oeddent eisoes yn ymwybodol fod hwn yn faes sensitif? Sut bynnag, mae'r ffrwgwd honno drosodd bellach; mae Oriel wedi tynnu 'nôl ac wedi cytuno'n swyddogol, mewn cyfarfod gyda chynrychiolwyr y fasnach lyfrau yng Nghymru, nad yw hwn yn faes priodol i siop o fath Oriel i fentro iddo.

Ond y mae Pete Meazey yn dal i boeni am y dyfodol; yn ei farn ef, y mae yna faterion o egwyddor sylfaenol yn codi yn yr achos hwn, a nifer o gwestiynau ynglŷn â swyddogaeth briodol Cyngor y Celfyddydau y dylid eu hateb. Ac ar un olwg, y mae'n anodd deall pam y mae'r Cyngor, sydd â'i fryd ar hyrwyddo siopau llyfrau, y ddolen gyswllt derfynol rhwng yr awdur a'i gyhoedd, yn fodlon peryglu bodolaeth siop fechan lewyrchus, waeth mor anfwriadol hynny, drwy gystadlu'n uniongyrchol (ac yn anheg, ym marn Pete Meazey) â hi am farchnad gyfyngedig. Dadl y Cyngor yw fod cymhorthdal ar gael i helpu Siop y Triban ond gwneud cais amdano.

Daw hyn â ni, wrth gwrs, at bwynt sylfaenol arall: pa mor gyfyngedig yw'r farchnad? Ai moeswers yr holl fusnes anffodus hwn yw na all dinas o faint Caerdydd, gyda'i phoblogaeth o 12,000 o Gymry Cymraeg, ddim cynnal dwy siop sy'n gwerthu llyfrau Cymraeg? Choelia'i fawr — ac eto, beth sydd wedi digwydd i'r Cymry fel prynwyr llyfrau? Ddeng mlynedd yn ôl, y gŵyn oedd nad oedd digon o ddewis, a phob Cymro a Chymraes lengar yn prynu pob llyfr Cymraeg oedd yn ymddangos fel mater o ddyletswydd. Yn awr bod cyhoeddwyr Cymru'n cynnig llawer iawn mwy o ddewis, ymddengys fod y nifer o lyfrau sy'n cael eu gwerthu yn llai. Unwaith eto eleni, mae cylchrediad y cylchgronau Cymraeg wedi gostwng.

Hwyrach y gellid dweud felly nad oes gennym ni neb ond ein hunain i'w beio os bydd rhaid i Siop y Triban gau ei drysau, am beidio â defnyddio'r siop a'i chefnogi hi — a diwylliant Cymru — drwy brynu peth wmbredd yn fwy o lyfrau a chylchgronau Cymraeg nag yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

Ond os mai dyna'r gwirionedd trist, fod y farchnad am lyfrau Cymraeg wedi crebachu i'r fath raddau fel na all Caerdydd gynnal dwy ffynhonnell o'r fath, yna oni ddylid ail-ystyried sefyllfa Oriel? Oni ddylai Cyngor y Celfyddydau adael y gwaith o werthu cymaint o lyfrau ag y gellir eu gwerthu i Siop y Triban, a pheidio â gwastraffu arian ar ddyblygu gwasanaeth sydd eisoes yn ddigonol? Does dim dwywaith amdani fod yna gyfeiriadau eraill y gellid gwario arian felly: ar gynlluniau gwerthfawr sydd eisoes wedi eu cychwyn gan y Cyngor, megis cymhorthdal i siopau sydd â'r angen a'r awydd amdano, neu'r cynllun gwella disgownt i lyfrwerthwyr (cynllun y mae rhyw 30 o siopau — gan gynnwys Siop y Triban — yn elwa arno eisoes).

Beth felly oedd ymateb Meic Stephens i'r gosodiad hwn? Dywed ef pe gellid profi mai dyna yw'r sefyllfa yng Nghaerdydd, nad yw'r farchnad yn ddigon mawr i gynnal dwy ffynhonnell o'r fath, a bwrw fod y Cyngor yn fodlon fod yna ddarpariaeth ddigonol ar gyfer arddangos a gwerthu llyfrau Cymraeg yn bod mewn rhyw fan arall, y byddai'n fodlon ystyried cau adran lyfrau Cymraeg Oriel. Ond mae'n brysio i ychwanegu na chred ef mai dyna yw'r sefyllfa — ac nad oes ffordd yn y byd o ddarganfod beth yn union ydyw heb ymchwil ar raddfa eang a manwl dros ben. Rhaid cofio'r ddadl arall wrth gwrs: fod mwy o siopau yn esgor ar fwy o brynwyr drwy gyflwyno'r cynnyrch i'r cyhoedd ehangaf posibl.

Yn y pen draw, nid yw Meic Stephens yn derbyn fod Oriel yn effeithio ar Siop y Triban i unrhyw raddau mawr. Dim ond 15% o stoc Oriel sy'n gorgyffwrdd â'r math o lyfrau a werthir gan Siop y Triban; cyfanswm trosiant (*Turnover*) Oriel yn '76/'77 oedd £37,674, sef rhyw £5,500 o drosiant ar lyfrau Cymraeg ac Eingl-Gymreig. Ym marn Meic Stephens, rhydd hyn gyfanswm (ar y mwyaf) o ryw £550 o elw y gellid dweud fod Oriel wedi ei ddwyn oddi ar Siop y Triban mewn blwyddyn.

Chwerthin anghrediniol oedd ymateb Peter Meazey i hyn. Eglurai nad oedd 15% o'r stoc yn golygu mai 15% oedd cyfran y llyfrau hyn o'r trosiant: "Mae gwahanol fathau o stoc yn gwerthu'n gyflwymach na rhai eraill, ac ar y cyfan, fe faswn i'n tybio y byddai llyfrau Cymraeg yn gwerthu'n gyflymach na'r math eraill o lyfrau y mae Oriel yn eu cadw. Felly maen nhw'n gwneud mwy o elw na hynny." Ar y llaw arall, ym marn Pete, os yw'r ffigur o £5,500 o drosiant ar lyfrau Cymraeg ac Eingl-Gymreig yn gywir, y mae hynny'n gondemniad ynddo'i hun ar y ffordd y rhedir Oriel. Ar hanner cymaint o stoc ag y mae Oriel yn ei gario, roedd trosiant Siop y Triban ar y llyfrau hyn y llynedd yn rhyw £20,000.

Ac felly, y mae'r ddadl yn rhygnu ymlaen a'r ddwy ochr mor bell oddi wrth ei gilydd ag erioed. Y mae'n debyg y bydd Siop y Triban yn gohirio cau yn awr hyd ddiwedd mis Medi er mwyn rhoi cyfle i Bwyllgor Llên Cyngor y Celfyddydau i drafod y mater. Ond y mae Meic Stephens yn bendant nad oes dim byd i'w drafod: y mae'r cynnig o gymhorthdal i Siop y Triban ar agor o hyd, ond i'r Meazeys wneud cais amdano. I ddyfynu ei eiriau ef,

"Yr ydym yn cydymdeimlo â Mr Meazey yn ei anhawster ond yn gresynu'r ffaith ei fod wedi dewis camarwain y cyhoedd drwy geisio gosod y bai ar Gyngor Celfyddydau Cymru, tra'n gwrthod ystyried y cymorth yr ydym ni'n ei gynnig iddo ar yr un pryd."

Yn y cyfamser, teimlad Peter a Nel Meazey yw pam y dylai'r Cyngor gael chwarae'r noddwr caredig iddynt yn eu trafferthion pan yw hi o fewn gallu'r Cyngor ei hun i ddileu'r trafferthion hynny yfory heb angen talu allan yr un ddime goch o gymhorthdal. Y maent yn gwbl hyderus y gallai Siop y Triban ddal i fod yn fusnes llewyrchus heblaw am gystadleuaeth siop wladol sydd, yn eu barn hwy, yn gystadleuaeth gwbl anheg, ac ni welant reswm yn y byd pam y dylent hwy ildio a gorfod erfyn am elusen gan y Cyngor.

Rhaid aros felly hyd fis Medi yn awr i weld beth fydd tynged Siop y Triban, Caerdydd.


CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH
YNG NGHYMRU




CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD

DANFONWCH HEDDIW AT

Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd

Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

# O'r Ganolfan

## WARDEN NEWYDD

Pleser yw croesawu Alan Gwynant yn Warden llawn-amser newydd i'r Ganolfan. Brodor o Flaenau Ffestiniog yw Alan a bu'n weithiwr dygn yn yr Aelwyd yno dros y blynyddoedd. Mae newydd orffen cwrs i arweinyddion ieuenctid ym Manceinion ac rwy'n siwr y caiff lawer o foddhad wrth arwain yr holl weithgaredd cyson yn y Ganolfan. Pob dymuniad da iddo.

Wrth groesawu Alan, pleser yw gallu diolch i Rhys Tudur am ei lafur trwyadl yn ystod y misoedd ar ôl ymadawiad Ian ap Dewi. Bydd Rhys yn parhau fel Is-Warden rhan-amser.

## YR HUFEN IA


Cafodd Alan ei fwrw i'r dwfn fel petai yn syth ar ôl cyrraedd, fel cynorthwydd i'r Pwyllgor Rheoli a fu'n brysur yn gwerthu hufen ia, ffrwythau, crempogau, fferins a selsgwn yn Eisteddfod y Barri. Trist yw gorfod cofnodi fod y fenter wedi bod yn ariannol aflwyddiannus eleni. Cafwyd dechrau bendigedig ar y dydd Mercher, ond profodd y tywydd gwlyb am [illegible] yr wythnos yn drychineb. Er i'r Urdd yn ganolog wneud elw sylweddol o'r fenter, colled ariannol a fu'r gwaith i'r Ganolfan.

Mae hyn eto yn trymhau'r baich ariannol sydd arnom. Rhaid ffeindio dros £3,000 yn flynyddol bellach dim ond i gadw'r drysau'n agored. Mae'r Gronfa Apel bellach wedi cyrraedd £1,500 — diolch o galon i'r rhai a gyfrannodd mor hael yn ystod y mis diwetha 'ma. Mae'r Gronfa'n dal i fod ar agor, wrth gwrs, ac fe fyddai'r Trysorydd yn falch iawn o glywed oddi wrthych.



## Y RIFIW

Ar nodyn hapusach, pleser yw llongyfarch yr Aelwyd am noson fyth-gofiadwy yn yr Arena adeg yr Ŵyl Gyhoeddi. Nid wyf yn meddwl i mi erioed weld cynulleidfa o Gymry Caerdydd yn chwerthin mor iachus. Rwy'n siwr y byddwch yn falch o glywed y ceir cyfle i weld y sioe yma unwaith eto ar nos Sadwrn, Hydref 1af yn Theatr Bute. Bydd yn cychwyn am 8.30p.m. ac y mae'r tocynnau'n bunt yr un, oddi wrth Ganolfan yr Urdd. (Cofiwch hefyd y gellwch fanteisio ar y cynllun bargen, a chael tocyn i'r Rifiw ac i ddrama Cwmni Drama'r Aelwyd y noson wedyn yn y Sherman am £1.50 — gweler yr eitem ar y Cwmni Drama ar Daith.



## WYTHNOS MR URDD

Bydd Siop Mr Urdd yn ymweld â'r Ganolfan am wythnos ym mis Medi, o ddydd Llun 26ain o Fedi ymlaen. Bydd y siop ar agor bob nos ac fe fydd llu o ddigwyddiadau difyr eraill — fel Parti Mr Urdd i'r plant (7-11 oed) naill ai ar y nos Lun neu'r nos Fawrth, a Disgo Mr Urdd i bobl ifanc ar y nos Wener. Manylion llawn yn *Y Dinesydd* nesaf.

## YMWELD A'R DDAWNS

Cafwyd nifer o ymwelwyr annisgwyl a'r Ganolfan nos Wener, Gorffennaf 8fed pan alwodd 45 o ddisgyblion Ysgol y Gader, Dolgellau i mewn i'r ddawns a gynhaliwyd yno'r noson honno i gerddoriaeth y grwp pop enwog SHWN. Roedd y disgyblion, aelodau o'r 4ydd, 5ed a'r 6ed dosbarth ar drip i ymweld â'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, ac roedd yr ymweliad â'r Ganolfan yn ffordd ddelfrydol o ddirwyn diwrnod difyr iawn i ben.

## YR WLPANAU

Cynhaliwyd dau Wlpan y flwyddyn yn y Ganolfan er sefydlu'r un cyntaf yng Nghymru yno yn Hydref 1973. Mae llawer o bobl am ymuno â'r Cyrsiau hyn ond oherwydd y galw, mae'n angenrheidiol cynnal cyfweliadau i ddewis y bobl fwyaf addas i ddilyn Cwrs o'r math hwn sy'n gofyn dycnwch a phenderfyniad cryf iawn gan fod angen dod ar bum noson o'r wythnos am ddwy awr a chwarter ar y tro am un wythnos ar ddeg! Dysgir y myfyrwyr gan dîm o athrawon gwirfoddol a rhoddir y tâl a godir ar y dysgwyr i gynorthwyo cynnal y Ganolfan ac i gefnogi Ysgolion Meithrin Cymraeg y ddinas ac ati. Bydd y nawfed Wlpan yn dechrau yn y Ganolfan ym mis Medi ac eisoes fe ddewisiwyd y bobl fydd yn cael dod ar yr Wlpan hwnnw.

## DOSBARTHIADAU ERAILL

Cynhelir dosbarthiadau'r flwyddyn gyntaf i bobl rhwng 18 a 35 oed yn y Ganolfan bob blwyddyn, ddwy noson yr wythnos am y ddau dymor cyntaf ac unwaith yr wythnos yn ystod tymor yr haf. Eleni, roedd y dysgwyr mor frwd nes mynnu dod ddwy noson yr wythnos hyd yn oed yn ystod tymor yr haf! Dysgir y grwpiau hyn gan dîm o athrawon gwirfoddol ac os oes rhywun â diddordeb mewn ymuno â'r tîm gwirfoddol yma ym mis Medi yna cysylltwch â Warden y Ganolfan (Tel. 36201).

Cynhelir dosbarthiadau unwaith yr wythnos (nos Fercher) i bobl yr ail flwyddyn ac eleni am y tro cyntaf fe gafwyd dosbarth paratoi i sefyll arholiad Cymraeg 02. Dafodd chwe pherson yr arholiad ac fe'u dysgwyd gan Bernard Evans a Tudor Williams. Bydd y grwpiau yn ail-ddechrau ym mis Medi a chynhelir y noson gofrestru ar nos Fercher y 14eg o Fedi am 7.00p.m. A chofiwch un peth — rhaid i'r dysgwyr fod rhwng 18 a 35 oed!

## EISTEDDWCH I LAWR!

Mae'r soffa esmwyth hon o waith llaw Teulu Williams ar werth, a'r arian i gyd yn mynd i'r Ganolfan. (Gwnaed y soffa'n arbennig ar gyfer y Ganolfan — mawr yw ein diolch i Teulu Williams amdani.) Mae hi'n werth o leiaf £120 ond rhoddir ystyriaeth i unrhyw gais dros £80 — ffoniwch y Ganolfan ar unwaith!



*"Ew, mae'n gysurus!"*


Sain

Mae Caerdydd yn gyforiog o dalent, ac fe'i cewch ar recordiau newydd SAIN! :- (yn Siop y Triban a mannau eraill) :-

CÔR AELWYD CAERDYDD – Cyngerdd Ffarwel – SAIN 1077D
MERÊD – y casgliad llawnaf hyd yma o ganeuon gwerin traddodiadol – SAIN 1076D
GERAINT JARMAN – *Tacsi i'r Tywyllwch* – SAIN 1096M

ac o'r byd mawr tu allan, recordiau newydd gan:-
INJAROC, RICHIE THOMAS, ELERI LLWYD, CANTORION CYNWRIG, GWYNDAF, MEIC STEPHENS, ELINOR BENNETT, TELYN CYMRU 2, a llawer mwy...

SAIN (RECORDIAU) CYF., PENYGROES, CAERNARFON, GWYNEDD. (PENYGROES 732.)

# Merched y Wawr

**Daeth tymor arall, llwyddiannus iawn, i ben yn hanes Cangen Caerdydd o Ferched y Wawr.**

Mr. Emyr Humphreys a ddewiswyd fel gwestai i'r noson agoriadol ym mis Medi. Cafwyd darlith hynod o ddifyr ganddo am Gymry enwog a aeth i fyw i'r Amerig. Yna, ym mis Hydref, daeth Mr. Haydn Thomas atom i son am ei waith gyda'r henoed, ac yr oedd y noson yma hefyd yn ddiddorol ac addysgiadol dros ben.

Miss Marian Rees oedd ein gwestai yng nghyfarfod mis Tachwedd. 'Taith yn yr India' oedd testun ei darlith hi. Gŵyr pawb ohonom erbyn hyn am 'ddawn dweud' Marian, ac â chymorth y taflwr lluniau, rhoddodd inni ddarlun byw dros ben o'r gwahanol leoedd y bu'n ymweld â hwy yn y wlad ryfeddol hon. Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr yng Ngholeg Gwyddor Tŷ, Llandaf a mawr yw ein diolch i Miss Nansi Jones am y croeso cynnes a gafwyd yno. Daeth amryw o aelodau â'u hoff recordiau i'r cyfarfod hwn a chafwyd pytiau o hanes am bob record.

Ym mis Ionawr aethpwyd ar ymweliad â stiwdio Teledu Harlech a chafwyd noson bleserus yng nghwmni hynaws Mr. David Meredith, a'n tywysodd o amgylch yr adeilad. Ym mis Chwefror, daeth neb llai na Mr. Richard Bowering atom i sôn am blanhigion y gall pawb (wel-bron pawb!) eu tyfu.

Daeth yn draddodiad bellach i neilltuo cyfarfod mis Mawrth i groesawi'r Dysgwyr ac ni thorrwyd ar yr arferiad hwn eleni. Daeth nifer fawr o ddysgwyr ynghyd am 'paned a sgwrs a chân o dan arweiniad y dihafal Gwilym Roberts.

Tŷ Maeth oedd ein cyrchfan y mis Ebrill. Cawsom gyfle i weld ffilmiau Cymreig cyn cyfrannu o'r bwyd blasus a ddarparwyd ar ein cyfer.

'Hwyl a Sbri' oedd teitl cyfarfod olaf y Gangen ym mis Mai. Dau Gyn-Lywydd y Gangen, sef Eleri Rogers a Myra Jenkins a drefnodd y rhaglen. Cafwyd darlleniadau ac adroddiadau gan aelodau a hannai o bob un o hen siroedd Cymru, a gan i bob aelod ddewis cyflwyno gwaith awdur o fro ei genedigaeth, cafwyd 'siaced fraith' ddymunol dros ben. Yr oedd hon yn ffordd deilwng o gloi tymor ardderchog o weithgareddau.

Oherwydd bod yn rhaid adnewyddu rhannau o'r adeilad nid oedd yn bosibl i ni gynnal ein cyfarfodydd i gyd ar ein haelwyd arferol yng Nghanolfan Yr Urdd eleni. Ond daeth aelodau caredig Capel Ebeneser i'r adwy ac ni bu'n rhaid dileu unrhyw gyfarfod, oherwydd cafwyd eu caniatad siriol i ddefnyddio festri'r capel. Mawr yw ein dyled iddynt am eu cymwynas.

Mawr yw ein dyled hefyd i Mrs. Nia Hall Williams, ein Llywydd am y flwyddyn, a weithiodd mor ddygn yn wyneb anawsterau. Wrth ddiolch yn gynnes iddi am ei gwasanaeth gwerthfawr i'r Gangen, croesawn ein Llywydd am y tymor nesaf, sef Miss Eirwen Humphreys. Cymerodd Mrs. Marion Jones at yr awennau hefyd fel Ysgrifenyddes newydd, ac wrth eidduno blwyddyn lwyddiannus iddi hithau, diolchwn yn ddiffuant i Mrs. Nia Vittle sydd wedi bod yn weithgar dros ben fel Ysgrifenyddes y Gangen yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac i Mrs. Alwenna Thomas, ein Trysorydd. Ni chaiff hi ei phen yn rhydd am flwyddyn arall!

Onid ydych yn aelod eisoes, beth am ymuno â ni y tymor nesaf? Cynhelir y Cyfarfodydd yng Nghanolfan yr Urdd Heol Conwy, Canton, am 7.30 p.m., fel arfer ar y Nos Fawrth cyntaf ymhob mis. Mae croeso brwd yn eich aros!

# Gyda'n Gilydd!

**Cyn pen dim nawr bydd rhai miloedd ohonon ni sy'n byw neu'n gweithio yng Nghaerdydd a'r cylch yn taflu ein Welintyns (y pesimistiaid) a'n ambre-soleil (yr optimistiaid) i gist y modur ac yn bwrw hi am y gogledd. Wrecsam a'r Eisteddfod Genedlaethol fydd ein nod wrth gwrs. Byddwn i gyd yn edrych ymlaen am wythnos lawen yng nghwmni ein gilydd, ond fe fyddwn ni yn mynd i'r brifwyl y tro hwn i gyflwyno neges arbennig hefyd. Hwn fydd ein cyfle mawr i ddweud wrth Gymru benbaladr fod yr ŵyl genedlaethol yn dod i Gaerdydd y flwyddyn nesa, ac i ddangos fod na groeso mawr yn eu disgwyl yn y brifddinas.**

Bydd y croeso yn cael ei estyn yn swyddogol amser cinio ar y dydd Iau — ugain munud wedi un i fod yn fanwl gywir — o lwyfan y pafiliwn mawr. Mr. Emyr Currie-Jones, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd, fydd yn cyhoeddi'r gwahoddiad, a'r neges sydd gen i, i ddarllenwyr y Dinesydd, yw galw arnoch chi bob un sydd yn mynd i Wrecsam i wneud yn siwr eich bod chi yno yn y pafiliwn i'w gefnogi.

Ar y llwyfan gyda Mr. Currie-Jones bydd parti o ddisgyblion ysgol Bryntaf yn canu cywydd croeso i Gaerdydd. Awdur y cywydd yw Emyr Lewis, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Rhydfelen ac sy'n awr yn fyfyriwr yng Nghaergrawnt.

Ond nid ar y llwyfan yn unig y bydd y croeso. Bydd gan Bwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd babell arbennig ar y maes. Cofiwch alw yno! Bydd yn gyfle i chi archebu eich tocynnau ar gyfer Eisteddfod Caerdydd i wneud yn siwr fod gennych chi seddau da ar gyfer yr Eisteddfod, y cyngherddau a'r dramâu.

Yn y babell hefyd bydd swyddogion pwyllgor llety a chroeso Caerdydd — dywedwch wrth bawb eu bod yno yn barod i gymryd enwau pwy bynnag sydd am lety dros wythnos yr Eisteddfod. Ac os ydych chi am brynu presentau i fynd adre gyda chi a helpu cronfa Eisteddfod Caerdydd yr un pryd — wel mae na bethau diddorol ar werth yn y babell — teis i'r dynion, mygiau i'r plant, ac i'r gwragedd — wel, pa wraig na fyddai wrth ei bodd yn cael un o'r platiau hardd sy'n cael eu cynhyrchu yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod gan Gwmni Crochenwaith Boncath. Ond cofiwch, dim ond dwy fil o'r rhain sy'n cael eu cynhyrchu — wedyn os ydych chi am gael un — brysiwch!

A hwyl i chi yn Wrecsam. Cofiwch ddod i'n gweld ym mhabell Caerdydd ar y maes.

J. IDRIS EVANS
Trefnydd Eisteddfod y De.



*Rhoda Lewis, aelod o Theatr yr Ymylon, y cwmni drama o Gaerdydd wrthi'n dysgu ei gwaith ar gyfer tymor haf y cwmni yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Byddant yn perfformio "The Corn is Green" (Emlyn Williams) a "The Day the Welsh Rose" (Michael Burn).*

# Pencadlys Newydd i'r Blaid

**Bydd Plaid Cymru yn prynu pencadlys cenedlaethol newydd yng Nghaerdydd, a lawnsiwyd cronfa o £45,000 ar gyfer ei phrynu a'i wella. Penderfynwyd prynu'r ganolfan newydd yn Heol yr Eglwsy Gadeiriol, Caerdydd, er mwyn darparu cartref newydd ar gyfer cynnydd yn nhrefniadaeth y mudiad. Mae Swyddfa Ganol bresennol y Blaid mewn llofftydd uwchben 8 Heol y Frenhines, Caerdydd, ac fe'u cafwyd yn anghyfleus o safbwynt parcio a lle yn y blynyddoedd diweddar.**

Bellach mae'r les ar y swyddfeydd yn Heol y Frenhines wedi dod i ben, a bwriad Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol y Blaid yw torri i lawr ar renti uchel drwy fuddsoddi mewn canolfan newydd a fydd yn eiddo i'r Blaid.

Bwriedir gwneud hynny cyn unrhyw gynnydd pellach mewn pris eiddo, dywedodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Blaid, Mr. Dafydd Williams.

Gwneir apel i bob aelod a chefnogwr o'r Blaid i roi mor hael ag y bo modd tuag at y pencadlys newydd. Ceir tystysgrifau arbennig o £100 a £50, a dechreuwyd ymgyrch genedlaethol i godi'r arian gan Drysorydd Plaid Cymru, y Cyng. Sirol Elwyn Roberts.

"Mae angen cyrraedd y targed o £45,000 erbyn diwedd y mis a gwn y gallwn glirio'r holl gostau pe caem gefnogaeth hael gan ein holl gefnogwyr", dywedodd Mr. Roberts. Gellir anfon rhodd yn uniogyrchol at Swyddfa'r Blaid 8 Heol y Frenhines, Caerdydd CF1 4BU.

Mae gan Blaid Cymru eisoes swyddfeydd etholaethol yn ei meddiant yng Nghaerfyrddin, Aberstwyth, Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon. Pe byddai'r Blaid wedi rhentu swyddfa o'r math sydd eisiau, byddai'r gost flynyddol yn fwy na £5,000 y flwyddyn, meddai Is Lywydd y Blaid, y Dr. Phil Williams, mewn taflen apêl arbennig.



*Cartref newydd y Blaid*

# Cyfle i Arwain Côr

**Credir mai'r flwyddyn nesa fydd y tro cyntaf i'r Eisteddfod Genedlaethol gynnwys Cystadleuaeth Arwain Côr. Bwriedir y gystadleuaeth yn Eisteddfod Caerdydd fel ffordd i feithrin a hybu arweinwyr ifainc, ac yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth mae ysgoloriaeth Cyngor Celfyddydau Cymru i alluogi buddugwr y gystadleuaeth i astudio gydag arweinydd proffesiynol.**

Mae'r gystadleuaeth, sydd yn agored i rai dan 25 oed, wedi ei threfnu mewn dwy ran. Fe fydd gofyn i'r cystadleuydd yn gyntaf arwain darn wedi ei baratoi, ac yna fe fydd gofyn iddo arwain darn heb ei baratoi, darn a gyfansoddir yn arbennig ar gyfer y gystadleuaeth. Gwobrwyir techneg yn ogystal â dehongliad.

Ffurfir côr o 20 - 24 llais ar gyfer y gystadleuaeth, a bydd cyfle i bob un o'r tri arweinydd yn y prawf terfynol ar y llwyfan ymarfer gyda'r côr hwn am chwarter awr yr un, ddwy awr cyn y gystadleuaeth. Bydd cyfle i'r tri weld yr ail ddarn — y darn heb ei baratoi, — hanner awr cyn y prawf terfynol. Yn y rhagbrawf y darn cyntaf — y darn wedi ei baratoi — yn unig fydd angen iddyn nhw arwain.

Bydd gwobr o £20 i'r enillydd, yn ogystal â'r ysgoloriaeth.

# "Mae ynys yn y Barri..."

Roedd nos Fercher y 6ed o Orffennaf yn noson fendigedig o braf ar gyfer taith flynyddol Adrannau Rhiwbeina a Gwaelod y Garth i'r Barri. Daeth tua 60 o blant a "Swogs" ynghyd i fynd i Sŵ'r Barri yn gyntaf, cyn symud oddi yno i gael profi dŵr môr Ynys y Barri (padlo yn unig!) a rhedeg a chwarae ar y tywod melyn cyn diweddu'r noson yn y Ffair! Un o uchafbwyntiau'r noson oedd cael gweld y nadroedd yn y pwll tywod yn y Sŵ a chyffwrdd ag ambell i un! Nid aiff y daith hon yn anghof am dipyn o amser, dwi'n siwr.

G.R.

Sir De Morgannwg
ADRAN GYFLENWI
Gwahoddir cynigion ar gyfer y gwaith o gyflenwi Gwerslyfrau Cymraeg a llyfrau Cymraeg ar gyfer Llyfrgelloedd Ysgolion.
Rhaid danfon cais ysgrifenedig yn gofyn am y manylion cynnig at Swyddog Cyflenwi'r Sir, Sir De Morgannwg, Adran Gyflenwi, 5/6 Station Terrace, Caerdydd CF1 4XH.
Rhaid i'r cynigion ddod i law erbyn 22ain Awst 1977.
*W.P. Davey,*
*Prif Swyddog Gweithredol,*
*Pencadlys y Sir, Caerdydd.*

Clywch
Luis Palau

yng
NGHYMRU
yn


Castell Caerdydd
(bob nos ag eithrio'r Sul)
7.30p.m.
AWST 17-27
Mynediad am Ddim

# Ein siomi yn SIWAN

**Mor braf oedd gweld Theatr y Sherman yn orlawn nos Wener, Gorffennaf 1af ar gyfer perfformiad cwmni Theatr yr Ymylon y ddrama'r Cyhoeddi, *Siwan*. Mor braf yn wir nes gyrru un actores adnabyddus i hisian drwy'i dannedd, "Piti na allen ni gael Cyhoeddi bob wythnos — byddai hynny'n datrys problem diffyg cynulleidfaoedd i ddramau Cymraeg."**

Mae'n amlwg y byddai'n beth da i ni i gyd ymweld â'n thatr leol yn amlach, pebai ond i ymgyfarwyddo â hi ac osgoi perfformans tebyg i'r eiddo'r gŵr bonheddig a ddaeth i mewn yn hwyr a cherdded ar draws blaen y llwyfan yng nghanol golygfa garu Siwan a Gwilym Brewys, a chwympo i lawr i ochr arall y llwyfan. Gyda pherfformwyr felly yn y gynulleidfa, prin fod angen actorion.

Sut bynnag, daeth y digwyddiad â rhyw gymaint o gyffro i act gyntaf yr oedd y cyfarywddwr wedi penderfynu fod yn rhaid ei chwarae yn boenus o araf am ryw reswm. Roedd fel petai rhyw o histeria graddol yn meddiannu'r gynulleidfa wrth i'r "build-up" i ymddangosiad Llywelyn fynd ymlaen... ac ymlaen... Gymaint rhyddhad oedd gweld Stewart Jones yn torri ar draws yr olygfa angladdol hon nes i hanner y gynulleidfa bwffian chwerthin mewn gollyngdod nerfus.

Doedd hyn ddim yn argoeli'n dda ar gyfer yr ail act, lle mae sgerbwd y ddrama radio yn dangos gliriaf drwy gig a gwaed y ddrama lwyfan; act lle mae'r geiriau'n hollbwysig, a nesaf peth i ddim o symudiad corfforol ar y llwyfan ei hun.

Yn anffodus, yn y cynhyrchiad hwn, bron na wnaethpwyd gorchwyl Alys yn gwbl amhosibl oherwydd y ffordd y gosodwyd y llwyfan: yn hytrach na rhoi ffenestr y gell yn yr ochr neu yng nghefn y llwyfan, dyna lle'r oedd hi yn y blaen fel y bu raid i Alys ein hwynebu ni o hyd wrth adrodd yr hanes. Ni, y gynulleidfa, felly *oedd* y barbariaid ar y lawnt, a thrwy'r aflerwch hwn, dyna ddinistrio'r ddelwedd ofalus o Alys fel yr unig ddolen gysylltiol rhwng Siwan — a ninnau — â'r byd y tu allan i'r gell. Teyrnged i allu Marged Esli yw'r ffaith iddi hi allu gwneud cystal perfformiad o'r olygfa hon ag y gwnaeth hi, a rhaid nodi'r fath berfformiad da a gafwyd gan y cymeriad hwn drwy gydol y ddrama.

Fe wellodd y ddrama o gryn dipyn yn y drydedd act fel petai'r actorion yn twymo at eu gwaith, ac yn cyflymu i ddod ag elfen o dyndra i'r act hon. O'r diwedd roedd barddoniaeth y ddrama yn cael cyfle i lifo, a chafwyd rhai eiliadau mawr.

Roedd yna fflachiau teimladwy dros ben yn nehongliad Iola Gregory o gymeriad Siwan, fflachiau a daflai oleuni newydd ar linellau cyfarwydd yma ac acw. Er enghraifft roedd y ffordd yr ynganodd hi'r llinellau yn yr Ail Act ynglŷn â derbyn carchar am oes pe cai Gwilym y nerth i neidio o'r crocbren yn goleuo'i holl berthynas â Llywelyn wedi hynny, ei dymuniad am gael ei chladdu ar wahan ar ôl treulio bywyd ynghyd, ei phendantrwydd fod "angau'n torri pob cwlwm".

Ond rhy brin oedd eiliadau o'r math hyn ac fe'n gadawyd â rhyw deimlad o anfodlonrwydd cyffredinol ar ddiwedd y noson, na wnaed cyfiawnder a'r ddrama fawr, anodd ei llwyfanu, ac ysgytwol hon. Ar y cyfan, nid bai'r actorion oedd hyn — er y gellir amau mai arwydd o ddiogi yn Stewart Jones fel actor oedd y ffaith fod Ifas y Tryc yn byrlymu mor beryglus o agos i'r wyneb ar brydiau — yn hytrach, rhaid rhoi'r bai ar gynhyrchiad nad oedd fel petai wedi hanner deall y ddrama. Diddorol iawn fydd gweld y cynhyrchiad hwn ar daith yn yr hydref, wedi i'r cyfarwyddwr gael amser i dreiddio gymaint â hynny'n ddyfnach i ddyfnderoedd y ddrama goeth hon.

SIÂN EDWARDS

**Erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* allan o'r Wasg bydd y darllenwyr i gyd â thrwyn pob car a charafan wedi'i anelu am Wrecsam ac ar eu gwyliau. Felly, wna'i ddim trethu amynedd neb wrth wylofain am broblemau na gorfoleddu am fân lwyddiannau, na hyd yn oed apelio am gefnogaeth ariannol na dim arall!**

# Y MUDIAD MEITHRIN

Fel byddai fy mam yn dweud wrthym pan holem hi yn blant, "Be fasa chi'n licio'i gael yn bresant?" — yr ateb bron yn ddieithriad fyddai "Pwys o lonydd." Erbyn hyn gwn yn iawn sut y teimlai wrth roi'r ateb yna. Gan ein bod i gyd yn dyheu am wyliau, fe roddaf innau lonydd i bawb!

## Diolch

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol fel hyn, carwn ddiolch yn fawr iawn i holl athrawon a chynorthwywyr dygn ein cylchoedd am wasanaethu mor ddiflino ac am bob cymorth i ninnau. Carwn hefyd ddiolch i'm Pwyllgor Sir sydd bob amser yn barod hefo'i gefnogaeth a'i arweiniad.

## Digwyddiadau

Dyma fymryn o "Hysbys" i rai digwyddiadau y tymor nesa. Mae Cyfarfod Blynyddol y Mudiad ar y 24ain o Fedi yng Ngholeg Politechneg Cymru, Trefforest. Cyfarfod y bore'n agor am 10.30 a Sesiwn y pnawn am 2.00. Y gwyr gwadd fydd Mr John Brace, Mr Emyr Currie Jones a Mr Dennis Davies. Gyda'r nos mae 'na Noson Gymdeithasol o Swper a Dawns yn Neuadd Bentre Pentyrch. Croeso i gefnogwyr y Mudiad i "Miri Meithrin" — mae tocynnau £1.50 yr un ar werth gan Eleri Betts a minnau.

## Tren Llundain

Beth am glustnodi Sadwrn y 15fed o Hydref? Dyma ddyddiad Trip Tren y Mudiad i Lundain. Peth braf fyddai llenwi pob sedd er sicrhau elw teilwng a rennir yn gelc i bob Cylch Meithrin yn y Sir. Dyma fanylion y daith:

**COST Y TREN**

| O'r Barri | Dinas Powys/Cogan | Caerdydd |
|---|---|---|
| £4.20 | £4.10 | £3.95 |
| Plant £3.35 | £3.25 | £3.25 |

**AMSERAU**

| Y Barri | Dinas Powys/Cogan | Caerdydd | Llundain |
|---|---|---|---|
| (Bore) 7.15 | 7.35 | 7.45 | 10.15 |
| (Nos) 23.00 | 22.45 | 22.30 | 20.30 |

Byddai o gymorth mawr i'r trefnwyr pe gallai pawb archebu ei docyn erbyn yr 16eg o Fedi — gan bod rhaid talu'n llawn i'r Rheilffyrdd Prydeinig erbyn hynny.

## Y Cylchoedd yn ffynnu

Edrychaf ymlaen at flwyddyn lwyddiannus o Fedi ymlaen. Calonogol yw'r ffaith bod rhifau pob cylch fis Medi yn sicrhau y bydd ein deunaw Cylch yn parhau ar agor ac y mae rhif y rhan fwyaf o'r Cylchoedd yn cynyddu. Enghraifft o hyn yw bod Pentwyn sydd wedi bod yn ymdrechu efo llond dwrn yn mynd i fod â deunaw o blant. Dyma lwyddiant y Cylch Mam a'i Phlentyn sydd wedi bwydo'r Cylch Meithrin.

Ond dyna ni, addewais ar ddechrau'r llith yma na flinwn y darllenydd â manylion gwaith felly dyma dewi drwy ddymuno gwyliau llawen i bawb.

SHÂN EMLYN

# Dylunio Tŷ Bwyta Gwâr

Mae cystadleuaeth arbennig yn Adran Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y flwyddyn nesaf o ddiddordeb arbennig i bobl sydd yn gyfarwydd â Chaerdydd. Cystadleuaeth yw hi i fyfyrwyr pensaerniaeth a chelf i ddylunio'r tu mewn i dŷ bwyta newydd yng nghyffiniau Ynys yr Hayes yng nghanol y ddinas. Amcenir at ddarparu tu mewn a fydd yn ail-greu'r awyrgylch gartrefol a gwâr a gysylltwyd cyhyd yng Nghaerdydd â thŷ bwyta'r Kardomah gynt yn Heol y Frenhines. Mae' na wobr o £200 i'w dosbarthu yn ôl ewyllys y beirniaid Syr Misha Black a Jack Kelly.

Yn yr Adran Gelf a Chrefft hefyd mae'na gystadleuaeth sy'n ddolen gydiol rhwng yr Eisteddfod a Diwydiant. Gwahoddir cystadleuwyr i dylunio cadair freichiau esmwyth gyffyrddus, neu gyfres o gadeiriau esmwyth y gellir eu cysylltu â'i gilydd. Mae na wobr o £400 i'w rhannu yn ôl ewyllys y beirniaid, ac ar ben hyn mae'r gadair fuddugol i gael ei chynhyrchu gan gwmni Christie Tyler Cyfyngedig, sydd a'i bencadlys ym Mrynmelyn, Abercynffig. Mae Cwmni Christie Tyler wedi cyfrannu £500 at y gystadleuaeth a'r beirniaid fydd Mr. Michael Tyler a David Kester-Dodgson.

# Gŵyl Llandaf

**Bu Gŵyl Llandaf yn go anturus eleni, drwy gynnal cyngerdd o waith Karlheinz Stockhausen, a chomisiynu tri o gyfansoddwyr Cymru i gyfansoddi gweithiau newydd:- Alun Hoddinott — 'Sinfonia Fideo', William Mathias — 'Helios' a *Chonsierto i'r Piano* gan David Harries.**

Braidd yn annisgwyl oedd gweld Theatr Sherman bron yn llawn i glywed *Harlequin* ac *In the Sky, I am walking* gan Stockhausen. Roedd elfen theatraidd gref yn y ddau waith — yn fwriadol yn y cyntaf, ac yn fwy naturiol yn yr ail. Nid oedd yr actio wedi ei gynllunio yn arbennig o gelfydd, a chred rhai mai modd ydoedd i guddio gwacter y gerddoriaeth a oedd mor syml nes troi'n ddi sylwedd. O ran tegwch â Stockhausen dylid dweud fod y syniadau y tu ôl i'r ddau waith, sef rhyddid yr enaid mewn perthynas â byd natur, yn wreiddiol a diddorol, ond rhaid nodi'r methiant cymharol i gyfleu'r profiadau mewn termau cerddorol llwyddiannus.

Roedd y gweithiau Cymreig newydd yn fwy traddodiadol, a rhoddwyd derbyniad gwesog iddynt. Perfformiwyd *Consierto Piano* David Harries gan y cyfansoddur John McCabe. Roedd gwaed y Consierto yn aml yn denau — a'r rhan i'r piano yn dioddef o ddiffyg sylwedd, er fod ambell syniad yn gofiadwy. Diffyg cymeriad cerddorol oedd prif wendid y gwaith hwn yn y pen draw — ond ni ellid cyhuddo William Mathias o hynny. *Helios* a glywyd dan arweiniad Syr Charles Groves oedd y mwyaf llwyddianus o'r gweithiau newydd. Roedd iddo bwrpas clir, a gwireddwyd hyn yn y siwrne o ddyfnder niwlog tywyll i atgof o oleuni ac yn yr awyrgylch Groegaidd clir a bortrëwyd yn y tirlun meddyliol, un symudiad hwn.

*Sinfonia Fideo* gan Alun Hoddinott oedd y mwyaf uchelgeisiol o'r tri — gosodiad i gôr, unawdwyr a cherddorfa o dair cerdd Ladin — *Summi regis archangele Michahel, Ave Maris Stella,* a *Vexilla Regis.* Braidd yn siomedig oedd yr iaith or draddodiadol, er fod cryn dipyn ohono yn effeithiol wrth gyfleu naws ac ystyr y farddoniaeth. Gall Hoddinott ddefnyddio'r adnoddau wrth law yn feistrolgar, ac 'roedd yn amlwg fod Côr Dyfed yn mwynhau'r ysgrifennu corawl graenus. Gellid cwyno fod gormod o'r gwaith yn undonog a di fywyd ond 'roedd iddo hefyd uchafbwynt trawiadol — hynod o effeithiol yn ei ddefnydd amlwg o glybodeg (acoustic) yr Eglwys Gadeiriol.

Serch hynny, er fod gweithiau newydd Mathias a Hoddinott yn hynod o lwyddiannus, rhaid cydnabod nad yw cerddoriaeth gyfoes Gymreig wedi cyrraedd yr uchelfannau a gynrychiolir yng ngherddoriaeth Lloegr gan *Sumffoni Gyntaf Elgar* (1908) — uchafbwynt gwefreiddiol yr Ŵyl eleni.

GERAINT LEWIS

# Celfyddydau



*Poster THEATR PHOENIX i hysbysebu "DRINK THE MERCURY".*

# Gwenwyn yn y Wledd

**Eleni, Cymru a gafodd y fraint o groesawu Gŵyl Ryngwladol ASSITEJ (Association Internationale du Théâtre pour l'Enfance et la Jeunesse), y mudiad theatr ieuenctid rhyngwladol. Cynhaliwyd gwyliau blaenorol ASSITEJ yn Rwsia, yr Eidal, Dwyrain Berlin, Canada/Yr Unol Daleithau; Cymru felly yw'r cyntaf o wledydd Prydain i'r Ŵyl ymweld â hi, rhywbeth y gallwn ni i gyd ymfalchio ynddo.**

A dyna wledd o theatr ieuenctid a gafwyd yn ystod mis Gorffennaf. Bu cwmniau o unarddeg o wledydd (gan gynnwys rhai mor bell i ffwrdd ag Awstralia, Iran a Chanada) yn perfformio ledled Cymru, a buom ni yng Nghaerdydd yn eithriadol o ffodus gan i ni gael cyfle i weld pob un ohonynt ar lwyfannau'r Sherman.

Nid oes yma ofod i ddisgrifio'r danteithion i gyd, dim ond i enwi rhai cynyrchiadau eithriadol megis Theatr Marcinek o Wlad Pwyl gyda'i fersiwn lesmeiriol o Don Quixote, yn gymysgedd o actorion a phypedau; Theatr y Mermaid o Nova Scotia yn cyflwyno rhai o chwedlau'r Indiaid Mic Mac gyda chymorth masgiau anferth, lliwgar; Theatr Pobl Ifanc Awstralia a'i rhaglen ddifyr a hwyliog ar hanes cyffrous Undebaeth yn Awstralia. Daeth Theatr Phoenix o Loegr ag elfen o ddifrifoldeb hunllefus i'r Ŵyl gyda'u cynhyrchiad hwy o *Drink the Mercury*, hanes erchyll pysgotwyr a thrigolion eraill pentref Mimimata yn Siapen a wenwynwyd pan lygrwyd dyfroedd y bae ag arian byw, sef deunydd gwastraff ffatri leol, a hanes eu brwydr wedyn i geisio cael y cwmni i dderbyn y cyfrifoldeb am ei erchyllwaith. Gwnaethpwyd defnydd effeithiol iawn o dechnegau theatr Siapan, meim a cherddoriaeth wrth adrodd y stori hon mewn ffordd syml a wnai i blant (a phobl mewn oed, o ran hynny) sylweddoli gwir ystyr ofnadwy y gair "llygredd" a'i holl ymhlygiadau.

Ar nodyn ysgafnach, i mi fy hun uchafbwynt yr Ŵyl oedd cynhyrchiad godidog Theatr Carrousell o'r Iseldiroedd o anturiaethau Ko y Gath. Sioe ddoniol, liwgar, gerddorol, gyffrous, a'r bachgen mwyaf ystwyth ac amlgymalog a welodd neb erioed yn chwarae Ko ei hun! At hynny, hwyrach mai hon, o'r holl berfformiadau celfydd a soffistigedig a welwyd yn ystod y pythefnos, oedd y sioe a apeliai'n fwyaf uniongyrchol at y plant eu hunain — roedden nhw wrth eu bodd.

Ar ôl son am uchafbwynt, trist yw gorfod symud ymlaen i son am isafbwynt yr Ŵyl. Tristach fyth gan mai unig berfformiad Cymraeg yr Ŵyl oedd yr isafbwynt hwnnw, sef perfformiad gwarthus Cwmni Theatr y Werin â'i sioe ddiflas, ddiog, ddiddychymyg ac arwynebol. Ymddangosai'r holl beth fel petai wedi ei daflu at ei gilydd y noson cynt, ei ymarfer yn wael, a'i actio'n waeth fyth. Yr unig person a lwyddodd i ddod allan o'r sioe yma ag unrhyw rithyn o hunanbarch ar ôl oedd Iestyn Garlick a lwyddodd, wrth chwarae Bleddyn, y ci, i roi'r argraff nad oedd ganddo ef ddim byd i'w wneud â'r nonsens o'i gwmpas.

Fasech chi ddim yn meddwl fod angen dweud hyn eto — mae digon o bobl wedi ei ddweud o'r blaen — ond hwyrach gwell gwneud yn sgîl y cawl potsh gwarthus hwn: dyw'r ffaith fod cynhyrchiad yn cael ei gyflwyno ar gyfer plant ddim yn golygu y gwnaiff unrhyw hen sbwriel y tro. I'r gwrthwyneb yn llwyr. Dylid ymdrechu bob amser i greu theatr o'r safon uchaf un ar gyfer plant; byddai rhai'n teimlo fod hyn yn bwysicach nag unrhyw fath arall o theatr. Yn sicr, y mae hyn yn wir yn y cyd-destun Cymraeg, a dyna yw byrdwn fy nghŵyn. Wel, hynny a'r hen deimlad annifyr 'na sy'n dod o gael ein cywilyddio fel Cymry yn llygaid y byd...

SIÂN EDWARDS

## Arddangosfa

Gellir gweld arddangosfa diddorol iawn yn Festri Eglwys Dewi Sant ar hyn o bryd sy'n rhoi darlun o hanes a gweithgareddau'r eglwys yn y gorffennol a hefyd yr hyn y mae hi'n ei wneud ar hyn o bryd. Cofiwch alw i mewn i'w gweld y tro nesaf y byddwch chi yng nghyffiniau Dewi Sant.

# "Beware of Pickpockets"!

## Eisteddfod Caerdydd 1883

**Tybed, faint ohonoch sy'n gwybod pa ddigwyddiad pwysig a fu mewn sied injans yn Cathays, Caerdydd ym 1883. 'Doedd y digwyddiad hwn ddim yn gysylltiedig â'r rheilffyrdd, ac nid oedd injan i'w gweld yn unman. Pebawn i'n dweud mai'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yno hwyrach y byddech yn meddwl fy mod yn cellwair; ond 'rwy'n hollol o ddifrif.**

Benthycwyd y sied yn rhad ac am ddim gan gwmni rheilffordd y *Taff Vale*, ac 'roedd digon o le y tu mewn i ugain mil o bobl. Gwnaeth y cwmni rheilffordd drefniadau, hefyd, fel y gallai pobl deithio'n rhad i'r ŵyl. Dim ond saith swllt oedd y gost o Fangor i Gaerdydd ac yn ôl, ac ar y bore Mercher cludwyd mil o eisteddfodwyr ar drên arbennig o Gaernarfon.

Dechreuodd yr Eisteddfod gyda gorymdaith o neuadd y dref yn Heol y Santes Fair — gyda'r Maer, Mr. G. A. Stone, yn teithio mewn cerbyd agored. O'i flaen 'roedd band y *Glamorganshire Rifle Volunteers*, a'r tu ôl iddyn nhw 'roedd pum injan dân. Wedyn, cafwyd cynrychiolwyr o'r heddlu a llinell hir o foneddigion yr Eisteddfod. Er mai digon diflas oedd y tywydd 'roedd tyrfaoedd yn y strydoedd a gafodd eu haddurno â baneri lliwgar, ac ambell i waith cai'r plismyn ar gefn eu ceffylau drafferth i reoli'r dorf.

Cafwyd gorymdeithiau tebyg ar y diwrnodau eraill, ac erbyn hynny 'roedd y tywydd wedi gwella cryn dipyn. Diddorol yw sylwi fod Cyngor y Dref wedi neilltuo £500 i'r Maer eu gwario ar fwyd a diod i'r ymwelwyr pwysig.

Un o'r pethau cyntaf sy'n taro rhywun wrth ddarllen hanes Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, 1883, yw Seisnigrwydd yr ŵyl. Yr oedd amryw o'r cystadleuthau a'r beirniadaethau yn Saesneg; pobl di-Gymraeg megis Ardalydd Bute, a'r Arglwyddi Aberdare, Tredegar a Windsor oedd y llywyddion; ac mae rhannau helaeth o'r cofnodion yn Saesneg.

Yn ôl gohebydd *Tarian y Gweithiwr*, "Sefydliad Seisnigaidd gan mwyaf yw yr Eisteddfod, yr hon a gamenwir yn un 'genedlaethol' Gymreig."

'Roedd *Y Faner* hefyd yn gofidio am y prinder o Gymraeg. Sylwodd gohebydd y papur mai'r unig arwyddion ar furiau pafiliwn yr Eisteddfod oedd rhai Saesneg yn rhybuddio pawb: BEWARE OF PICKPOCKETS!

'Roedd y Pwyllgor Llen wedi penderfynu mai da o beth fyddai osgoi testun haniaethol i'r Awdl, ac fe gynigiwyd *Y Llong* yn destun i'r beirdd. Ond 'roedd un o'r beirniaid, Dyfed, o'r farn nad oedd fawr yn y testun i 'dynnu allan ymadferthoedd bardd," ac fe gyfeiriodd yn ei feirniadaeth at 'sychder hanesyddol' y testun. Dim ond tair Awdl a gynigiwyd ac, am yr ail flwyddyn yn olynol, bu'n rhaid atal y wobr.

Eisteddfod Caerdydd oedd un o'r rhai cyntaf — os nad y cyntaf oll — i roi sylw arbennig i Gelf a Chrefft. 'Roedd yr enwog Alma Tadema yn o'r beirniaid a gyflwynodd y Fedal Aur i Milo Griffith, y cerflunydd o Lundain.

Gŵr ifanc o Gaerdydd, Edgar Herbert Thomas, a dderbyniodd y Fedal Arian. Awgrymodd y beirniaid ei fod yn haeddu nawddogaeth, ac ar unwaith trefnodd Ardalydd Bute iddo dderbyn hyfforddiant mewn ysgol arlunio yn Llundain.

Ond os oedd yr Eisteddfod wedi rhoi lle teilwng i Gelf a Chrefft, nid oedd y sefyllfa cerddorol yn foddhaol, yn ôl *Cerddor y Cymry*. 'Roedd yn credu y dylid cael llai o destunau a gwell gwobrau. ('Roedd 27 o gystadleuthau gyda £100 o wobr gyntaf yn y brif gystadleuaeth gorawl a £2.2s. o wobr gyntaf i'r unawdwyr). 'Roedd hefyd o'r farn y dylid rhoi nwy o gefnogaeth i gerddoriaeth a cherddorion Cymreig a bod angen mwy o feirniaid Cymreig.

Y pwynt olaf a wneir gan *Cerddor y Cymry* yw hwn: "Pan yn cyflogi cerddorfa — fel y gwnaethpwyd y tro hwn am y swm anferh o £500 neu £600 — dylid dwyn allan weithiau o bwys, megys prif *oratorios* y meistri, a gweithiau teilwng o eiddo cerddorion Cymreig; a gwneud defnydd ohonynt yn yr Eisteddfod er lles y werin. Y mae yn rhy gynnar eto i'r werin i ddeall *overtures* a *symphonies* clasurol yng nghyngherddau yr Eisteddfod".

Os oedd y werin yn deall y gweithiau ai peidio, fe ddaeth nifer fawr ohonyn nhw i'r Eisteddfod ar y diwrnod olaf (dydd Iau) i wrando ar y chwe chôr yn y brif gystadleuaeth gorawl. 'Roedd yn rhaid i bob côr gynnwys rhwng 150 a 200 o leisiau a rhaid oedd canu tri darn gosod, sef,

*Wretched Lovers* (allan o *Acis & Galitea* gan Handel), *Lord of the Golden Day* (allan o *Martyr of Antioch* — Sullivan), a *Cyfoded Duw* gan David Jenkins.


Nid rhyfedd i'r gystadleuaeth bara am bedair awr. Gwrandawai'r ugain mil y tu mewn i'r pafiliwn yn astud, a mawr oedd llawenydd y fintai o Wynedd pan gyhoeddwyd mai Côr Chwarelwyr y Penrhyn — yr unig gôr o'r Gogledd i gystadlu — oedd yn haeddu'r wobr gyntaf o gan punt a medal aur.

Y noson honno trefnwyd i'r holl gorau ganu'r darnau gosod gyda'i gilydd fel diweddglo i'r Eisteddfod. Ond daeth cynifer o bobl i'r pafiliwn nad oedd lle i'r holl gorau, a bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r syniad.

HANDEL JONES

CYRHAEDDWCH
78,500
O DDARLLENWYR
Ffôniwch i gael ein
telerau hysbysebu
CAERDYDD 396262

WENALLT —
Y CWMNI AROBRYN



Ymlaciwch yn un o'n cerbydau
moethus 20-51 sedd

CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

(Gwasanaeth 24 awr)

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917. Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.* C810